# Dull gweithredu strategol Ofcom ar gyfer deallusrwydd artiffisial, 2025/26

Dull gweithredu strategol Ofcom ar gyfer deallusrwydd artiffisial, 2025/26 – Fersiwn Gymraeg

Cyhoeddwyd 6 Mehefin 2025

I gael rhagor o wybodaeth am y ddogfen hon, ewch i https://www.ofcom.org.uk/cy/about-ofcom/annual-reports-and- plans/ofcoms-strategic-approach-to-ai

# Cynnwys

## Adran

1. Cyflwyniad ..... 3
2. Cyfleoedd ar gyfer arloesedd AI ar draws y sectorau cyfathrebiadau ..... 8
3. Sut mae ein gwaith yn cefnogi arloesedd AI yn ein sectorau ..... 14
4. Sut mae Ofcom yn meithrin arloesedd diogel a chyfrifol ..... 21
5. Ein gallu i reoleiddio yng nghyd-destun AI ..... 26
6. Gweithio gydag eraill ynghylch AI ..... 28

## Atodiad

A1. Gwaith AI sydd ar y gweill ar gyfer 2025/26 ..... 30

# 1. Cyflwyniad

1.1 **Fel rheoleiddiwr cyfathrebiadau cydgyfeiriol y DU, mae Ofcom yn gweithio gyda diwydiannau sydd â thechnoleg wrth eu calon.** Nid yw defnyddio deallusrwydd artiffisial (AI) yn rhywbeth newydd i'r sector cyfathrebiadau, fel yr oedden ni wedi'i nodi yn ein Dull gweithredu strategol ar gyfer deallusrwydd artiffisial 2024/25, ond rydyn ni wedi gweld arloesi a mabwysiadu sylweddol o ran technolegau AI yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Wrth i ni gyflawni ein dyletswyddau rheoleiddiol, rydyn ni'n buddsoddi amser ac adnoddau er mwyn deall effaith AI ar ein holl sectorau unigol ac ar y sector cyfathrebiadau yn ei gyfanrwydd. Wrth i'r technolegau y mae ein sectorau yn eu defnyddio ddatblygu, mae cyfleoedd newydd yn dod i'r amlwg i fusnesau a defnyddwyr, ond mae risgiau'n gysylltiedig â'r rhain yn aml. Mae ein gwaith ar sectorau penodol a'n gwaith trawsbynciol i ddeall AI yn golygu ein bod yn gallu sicrhau'r canlyniadau rydyn ni am eu gweld i'r gwasanaethau y mae pobl yn eu defnyddio, ac i'r marchnadoedd rydyn ni'n eu rheoleiddio. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar y cyfleoedd y mae AI yn eu creu, ond rydyn ni hefyd yn cyflwyno crynodeb lefel uchel o'r risgiau yn Adran 4: 'Sut mae Ofcom yn meithrin arloesedd diogel a chyfrifol'.

1.2 **Mae ein gwaith i gefnogi arloesedd AI yn seiliedig ar ein dull rheoleiddio.** Oherwydd ein bod yn canolbwyntio ar ganlyniadau yn hytrach na'r dechnoleg sylfaenol, mae'r gwasanaethau y mae Ofcom yn eu rheoleiddio yn gallu defnyddio AI heb ofyn i ni am ganiatâd gyntaf, sy'n helpu i alluogi arloesi cyflymach drwy leihau gwrthdaro rheoleiddiol. Mae Egwyddorion Rheoleiddio Ofcom yn mynnu ein bod yn ymgynghori'n eang â'r holl randdeiliaid perthnasol ac yn asesu effaith camau rheoleiddio cyn rheoleiddio marchnad. Rydyn ni hefyd yn gweithio i sicrhau bod ymyriadau'n seiliedig ar dystiolaeth, yn gymesur, yn gyson, yn atebol ac yn dryloyw wrth eu hystyried ac o ran canlyniadau.

1.3 **Mae'n bwysig bod ein gwaith rheoleiddio'n dal yn addas ar gyfer y dyfodol.** Yn gyffredinol, mae ein gwaith rheoleiddio yn niwtral o ran technoleg, sy'n golygu ein bod yn canolbwyntio ar reoleiddio canlyniadau i ddefnyddwyr a dinasyddion, nid ar a ddylid defnyddio technolegau penodol i'w sicrhau ai peidio. Rydyn ni'n asesu'n rheolaidd yr effaith y gallai datblygiadau technolegol amrywiol, fel AI, ei chael ar ein sectorau ac unrhyw oblygiadau o ran ein gallu i gyflawni ein canlyniadau rheoleiddio. Gan fod AI yn dechnoleg sy'n datblygu'n gyflym, rydyn ni'n trafod yn rheolaidd â diwydiant ac arbenigwyr allanol i sicrhau bod gennym ddealltwriaeth gyfredol o'r cyfleoedd a'r risgiau y gall AI eu creu nawr ac yn y dyfodol yn ein sectorau sy'n cael eu rheoleiddio.

1.4 **Gall ein dull rheoleiddio, ynghyd â'n dealltwriaeth o AI ar draws ein sectorau, helpu diwydiant i ddatgloi manteision AI nawr ac yn y dyfodol.** Mae ein gwaith sganio'r gorwel wedi nodi nifer o gyfleoedd sylweddol ar gyfer arloesi nawr ac yn y dyfodol ar draws yr holl sectorau rydyn ni'n eu rheoleiddio. Mae gan arloesedd AI y potensial i sicrhau canlyniadau gwell i ddefnyddwyr a busnesau ar draws y diwydiannau rydyn ni'n eu rheoleiddio, nawr ac yn y dyfodol. Er enghraifft:

a) Ar gyfer **gwasanaethau ar-lein**, mae AI wedi cefnogi'r gwaith o ddatblygu prosesau safoni cynnwys awtomatig i helpu i wella diogelwch drwy nodi a lliniaru cynnwys niweidiol ar raddfa fawr ac yn gyflymach, gan sicrhau canlyniadau gwell i ddefnyddwyr llwyfannau ar-lein.


b) Yn y **sector darlledu**, mae AI yn gwella hygyrchedd drwy gynhyrchu capsiynau amser real, cyfieithu cynnwys i nifer o ieithoedd, a darparu disgrifiadau sain a throsleisio awtomataidd i helpu cynulleidfaoedd amrywiol i ddefnyddio cyfryngau.

c) Mae **cwmnïau telegyfathrebiadau** yn defnyddio AI i helpu i gadw eu rhwydweithiau'n ddiogel; ac yn y dyfodol, mae'n bosib y bydd y sector telegyfathrebiadau ddefnyddio AI i wella'r gwaith o reoli rhwydweithiau, gan arwain at wella ansawdd gwasanaeth a dibynadwyedd, yn ogystal â gwella cynaliadwyedd o bosib.

d) Yn y dyfodol, byddai modd defnyddio AI i optimeiddio'r broses o **ddyrannu sbectrwm** i helpu i leihau tagfeydd ar rwydweithiau a gwella effeithlonrwydd rhwydweithiau er mwyn darparu gwasanaeth gwell i ddefnyddwyr.

e) Gallai Ai helpu **cwmnïau post** i optimeiddio llwybrau danfon ymhellach ar gyfer post a pharseli hefyd, a allai arbed arian, lleihau allyriadau carbon, a gwella dibynadwyedd ac ansawdd gwasanaethau i ddefnyddwyr.

**Ffigur 1: Enghreifftiau o achosion defnydd AI nawr ac yn y dyfodol ar draws ein sectorau**




1.5 **Yn fwy cyffredinol, fel mewn diwydiannau eraill, gallai AI arwain at arbedion cost a gwelliannau ar draws y sector cyfathrebiadau.** Mae gan AI y potensial i gynyddu cynhyrchiant ar draws ystod eang o feysydd, fel defnyddio AI i gynhyrchu dogfennau rheolaidd neu ddefnyddio sgwrsfotiau i gefnogi gwasanaethau i gwsmeriaid. Mae tua 1 o bob 5 (22%) o bobl yng ngweithlu'r DU yn dweud eu bod eisoes yn defnyddio AI fel rhan o'u swydd. Yn ogystal â thorri costau, gallai AI hefyd helpu busnesau i gynyddu refeniw drwy fonitro a dadansoddi adborth defnyddwyr a rhagolygon y farchnad, gyda'r potensial i wella rhagolygon busnes hirdymor a'r cynnyrch sydd ar gael i ddefnyddwyr. Efallai y byddwn

hefyd yn gweld mwy o gystadleuaeth yn y farchnad os gall AI leihau’r rhwystrau i ymuno â’n diwydiannau sy’n cael eu rheoleiddio. Mae’r cyfleoedd hyn yn bodoli ochr yn ochr â heriau a gydnabyddir yn eang sy’n gysylltiedig â defnyddio AI, a chwestiynau ynghylch dyfodol gwaith.

1.6 Mae gennym rôl bwysig i’w chwarae yn cefnogi arloesedd AI yn ein sectorau. Mae ystyried pa mor ddymunol yw hybu buddsoddiad, arloesedd a thwf economaidd yn rhan o ddyletswyddau Ofcom – a gallwn helpu ein sectorau i ddefnyddio AI yn fwy hyderus, yn ddiogel ac mewn gwahanol ffyrdd, i helpu i wireddu’r canlyniadau cadarnhaol sy’n cael eu cynnig gan AI. Rydyn ni’n datblygu amrywiaeth o fentrau a all helpu i gefnogi arloesedd AI. Mae’r rhain yn cynnwys:

a) **Buddsoddi mewn ymchwil AI ymarferol a thechnegol, gan gynnwys drwy flychau tywod a labordai technegol** – Mae creu lle diogel i arbrofi â thechnoleg (gan gynnwys gydag AI) yn helpu i sicrhau bod gan y DU seilwaith sy’n gallu parhau i gefnogi, hybu a chynyddu arloesedd a thwf. Ynghyd â Digital Catapult, mae Ofcom yn rhedeg y Labordai SONIC sy’n darparu gofod profi rhyngweithredol (‘Open RAN’) ar gyfer gwerthwyr cyfarpar rhwydweithiau symudol er mwyn archwilio’r defnydd o AI mewn rhwydweithiau symudol. Yn ogystal â chefnogi dull y sector symudol o ddefnyddio AI, gall y gwaith hwn helpu i lywio ein canllawiau yn y dyfodol ar gadernid rhwydweithiau ar gyfer gweithredwyr symudol;
b) **Darparu setiau data mawr i helpu i hyfforddi a datblygu modelau AI** – Gall cyhoeddi ein data a sicrhau ei fod ar gael i ddiwydiant helpu i gefnogi arloesedd AI. Byddai modd defnyddio ein data i hyfforddi a datblygu modelau AI, gwella eu hallbynnau a helpu i ddatgloi manteision AI i sector cyfathrebiadau’r DU yn gyflymach. Er enghraifft, rydyn ni wedi cyhoeddi setiau data unigryw, mawr sy’n ymwneud â sbectrwm (ee sut mae sbectrwm yn cael ei ddefnyddio yn y DU a mesur cryfder signal symudol) sydd wedi galluogi’r byd academaidd a diwydiant i ddefnyddio data hyfforddi o ansawdd uchel sy’n benodol i’r DU ar gyfer modelau AI o’r radd flaenaf ar gyfer achosion defnydd sbectrwm;
c) **Cydweithio â sefydliadau eraill i sicrhau cysondeb rheoleiddiol** – Drwy weithio gyda rheoleiddwyr a sefydliadau eraill, gallwn weithredu’n gyflym i ddeall y technolegau sy’n dod i’r amlwg a helpu i osod rheolau a safonau i ddarparu’r eglurder rheoleiddiol sydd ei angen i hybu arloesi diogel. Er enghraifft, rydyn ni’n gweithio gyda’r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA), Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) a’r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) drwy’r Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol (DRCF) ar waith sganio’r gorwel i ddeall defnydd newydd o AI, fel AI asiantol. Rydyn ni hefyd yn gweithio gyda Sefydliad Alan Turing i adeiladu tacsonomeg ar gyfer technoleg diogelwch, gan ddarparu cysondeb ac eglurder rheoleiddiol i helpu i ryddhau'r amser a’r adnoddau i sefydliadau ganolbwyntio ar arloesi diogel;
d) **Meithrin cysylltiadau a darparu cymorth gweithredol i randdeiliaid i gynyddu eglurder rheoleiddiol** – Mae ein cysylltiad agos â’r gwasanaethau rydyn ni’n eu rheoleiddio, gan gynnwys gwasanaethau dan oruchwyliaeth, yn helpu i gefnogi busnesau a rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i ni am gynlluniau diwydiant nawr ac yn y dyfodol ar gyfer defnyddio AI. Rydyn ni hefyd yn gweithio gyda’n partneriaid yn y Fforwm i ddarparu cymorth traws-sectoraidd mwy ymarferol i fusnesau sy’n awyddus i arloesi gydag AI. Yn ystod 2024/25, treialodd y Fforwm Hyb Deallusrwydd Artiffisial a Digidol a oedd yn darparu cyngor anffurfiol am ddim i arloeswyr sy’n dymuno defnyddio AI. Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn gweithio gyda’n partneriaid yn y Fforwm i lansio rhagor o gymorth i arloeswyr.

1.7 **Er bod AI yn gallu cynnig llawer o gyfleoedd i fusnesau a defnyddwyr, mae hefyd yn creu ac yn cynyddu niwed.** Ar draws ein sectorau, mae rhai risgiau sy'n cael eu galluogi gan AI yn cynyddu – yn enwedig o ran diogelwch ar-lein. Er enghraifft, mae camddefnyddio delweddau personol ffugiad dwfn (IIA) wedi cynyddu'n aruthrol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, wedi'i hwyluso gan argaeledd cynyddol eang adnoddau AI cynhyrchiol (GenAI). Mae hyn yn achosi gofid a niwed personol difrifol i lawer. Mae GenAI hefyd yn cael ei ddefnyddio i greu deunydd cam-drin plant yn rhywiol (CSAM) synthetig ac i ddatblygu mathau newydd a soffistigedig o sgamiau. Mae ein gwaith maes allanol yn awgrymu, er y bydd diwydiant yn elwa'n uniongyrchol ar ddefnyddio AI, defnyddwyr yn bennaf sy'n teimlo effaith y risgiau sy'n cael eu creu neu eu gwaethygu gan AI. Gall y risgiau hyn achosi niwed difrifol i unigolion, yn enwedig yn ein bywydau ar-lein – er enghraifft, mae 2 o bob 5 defnyddiwr rhyngrwyd dros 16 oed yn y DU yn credu eu bod wedi gweld ffugiad dwfn ac mae 1 o bob 5 (14%) yn dweud eu bod wedi gweld ffugiad dwfn rhywiol.[1]

1.8 **Rydyn ni'n gweithio i liniaru'r risgiau AI hyn**: fel y nodir yn ein Cynllun Gwaith 2025/26, rydyn ni'n sefydlu'r drefn diogelwch ar-lein i barhau â'n gwaith o adeiladu bywyd mwy diogel ar-lein i holl ddefnyddwyr y DU, yn enwedig plant. Rydyn ni hefyd yn canolbwyntio ar sicrhau bod darparwyr yn cydymffurfio â'u rhwymedigaethau cyfreithiol i ddiogelu defnyddwyr, gan barhau i weithredu'r drefn ar yr un pryd. Mae'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein (y Ddeddf) yn cynnwys nifer o elfennau a fydd yn ein helpu i reoli'r risgiau clir o dechnoleg newydd yn creu niwed newydd i ddefnyddwyr. Yn gyntaf, pan fydd cwmnïau'n newid eu gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio yn sylweddol – er enghraifft drwy ychwanegu sgwrsfot AI newydd fel rhan o'r gwasanaeth sy'n cael ei reoleiddio – mae'n mynnu eu bod yn cynnal asesiad risg newydd ac yn rhoi unrhyw fesurau lliniaru angenrheidiol ar waith. Yn ail, mae'r Ddeddf hefyd yn nodi'n glir bod cynnwys sy'n cael ei greu gan AI neu gan berson yn gallu bod yn gynnwys anghyfreithlon. Os oes cynnwys anghyfreithlon fel CSAM neu IIA wedi cael ei greu gan AI, mae'n dal yn ofynnol i gwmnïau weithredu arno

1.9 **Ar draws ein holl sectorau, rydyn ni'n cymryd camau i liniaru risgiau yn unol â'n dyletswyddau rheoleiddio.** Fel rhan o'n cyfrifoldebau, mae gennym rôl i'w chwarae yn hybu diogelwch defnyddwyr ac ymddiriedaeth mewn technolegau newydd. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer technolegau sy'n datblygu'n gyflym fel GenAI – ac wrth i wahanol fathau o AI gael eu defnyddio fwy a mwy gan fusnesau at amrywiaeth o ddibenion. Mae ein camau gweithredu wedi'u nodi mewn perthynas â thair risg eang sy'n ymestyn dros ein sectorau sy'n cael eu rheoleiddio: *cyfryngau synthetig, personoli,* a *diogelwch a chadernid*. Rydyn ni'n credu mai'r tair risg hyn yw'r rhai mwyaf perthnasol i'n sectorau a'n gwaith o hyd, yn enwedig gan fod ein hymchwil yn awgrymu mai dim ond traean (34%) o oedolion a ddywedodd eu bod yn teimlo'n hyderus yn adnabod cynnwys wedi'i gynhyrchu gan AI ar-lein – sy'n dangos bod pobl yn dal yn agored i niwed yn sgil camwybodaeth a thwyllwybodaeth, a thwyll a sgamiau soffistigedig a mwy personol. Hefyd, gellir camddefnyddio GenAI i dorri diogelwch rhwydwaith, er enghraifft drwy ddatblygu maleiswedd fwy ffyrnig. Rydyn ni'n parhau i drafod â diwydiant ac yn cymryd camau ein hunain i reoli'r risgiau hyn.

1.10 **Mae hefyd yn bwysig ein bod yn manteisio ar gyfle AI i leihau'r baich rheoleiddiol ar ein rhanddeiliaid.** Rydyn ni'n treialu dros ddwsin o 'brofion o gysyniad' ar gyfer ein defnydd ein hunain o AI, gyda'r nod o gynyddu cynhyrchiant Ofcom, gwella ein prosesau a chreu arbedion effeithlonrwydd. Mae'r cynlluniau hyn yn ymestyn dros holl waith Ofcom ac yn

[1] Adroddiad Ein Gwlad Ar-lein 2024

gweld AI yn cael ei ddefnyddio mewn gwahanol ffyrdd, gan gynnwys dadansoddi setiau data mawr yn ein hymgyngoriadau a'n prosesau delio â chwynion, defnyddio AI i wella'r gwaith o gynllunio sbectrwm, ac i gyflawni tasgau'n fwy effeithlon mewn gwasanaethau corfforaethol. Fel rheoleiddiwr, mae diogelwch wrth galon ein gwaith mewnol ac allanol ar AI ac mae angen i ni sicrhau cyfrinachedd a diogelwch y wybodaeth rydyn ni'n ei dal. Drwy'r treialon hyn, byddwn yn asesu eu manteision posib yn ogystal â sicrhau bod yr adnoddau'n cael eu defnyddio'n foesegol, yn briodol ac yn ddiogel cyn eu defnyddio'n ehangach yn Ofcom.

1.11 **Er mwyn cefnogi dull cyson o reoleiddio AI, rydyn ni'n trafod â Llywodraeth y DU wrth iddi fwrw ymlaen â'i gwaith ar AI.** Yn ddiweddar, cyhoeddodd Llywodraeth y DU Gynllun Gweithredu Cyfleoedd AI, a oedd yn gofyn i reoleiddwyr fel Ofcom roi'r wybodaeth ddiweddaraf am eu dull o reoleiddio AI, gan gynnwys sut mae eu gwaith yn cefnogi arloesedd AI. Mae'r ddogfen hon yn ddiweddariad o'r fath ar gyfer Ofcom. Fel y nodir yn y ddogfen hon, mae gennym rôl i'w chwarae yn cefnogi arloesedd AI yn ein sectorau a byddwn yn parhau i drafod â'r Llywodraeth ar ei chynlluniau i gefnogi cyfleoedd AI yn y DU a sut gallai ein rôl fod yn berthnasol. Er enghraifft, mae'r Llywodraeth yn bwriadu cynnwys canolfannau data yng nghwmpas y Bil Seiberddiogelwch a Seibergadernid sydd ar y gweill, ac rydyn ni'n parhau i weithio gyda'r Llywodraeth ar unrhyw gyfrifoldebau newydd a allai ddod i'n rhan o dan y Bil hwn. Byddwn yn parhau i ystyried y ffordd orau o hybu buddsoddiad a chefnogi twf yng nghyd-destun cyfrifoldebau newydd. Rydyn ni hefyd yn gweithio gyda Sefydliad Diogelwch AI (AISI) y Llywodraeth, sy'n cynnal ymchwil i helpu i lywio trefniadau llywodraethu AI i gefnogi cyfnewid gwybodaeth lle bo'n briodol.

1.12 **Mae ein diweddariad ar Ddull gweithredu strategol Ofcom ar gyfer deallusrwydd artiffisial wedi'i nodi yn yr adrannau canlynol:**

- Cyfleoedd ar gyfer arloesedd AI ar draws y sectorau cyfathrebiadau
- Sut mae gwaith Ofcom yn cefnogi arloesedd AI yn ein sectorau
- Sut mae Ofcom yn meithrin arloesedd diogel a chyfrifol
- Gallu Ofcom i reoleiddio yng nghyd-destun AI
- Gweithio gydag eraill ynghylch AI
- Gwaith AI sydd ar y gweill

# 2. Cyfleoedd ar gyfer arloesedd AI ar draws y sectorau cyfathrebiadau

2.1 **Fel y nodwyd gennym yn ein llythyr at Lywodraeth y Deyrnas Unedig yn nodi sut mae Ofcom yn cyfrannu at dwf economaidd ledled y DU, mae busnesau ar draws y sector cyfathrebiadau wedi bod ar flaen y gad o ran technoleg ers tro, ac maen nhw mewn sefyllfa dda i fanteisio ar gyfleoedd newydd AI.** Mae gan Ofcom hanes o weithio'n greadigol i ddefnyddio arloesedd i gefnogi'r gwaith o sicrhau canlyniadau da i ddefnyddwyr, ac i hybu twf economaidd. Nid yw AI yn eithriad, a gall y dechnoleg hon greu manteision i fusnesau a defnyddwyr pan fydd yn cael ei defnyddio'n ddiogel.

2.2 **Rydyn ni'n trafod yn rheolaidd â diwydiant ac arbenigwyr allanol i sicrhau bod gennym ddealltwriaeth gyfredol o'r cyfleoedd y gall AI eu creu nawr ac yn y dyfodol yn ein sectorau sy'n cael eu rheoleiddio.** Mae ein gwaith maes allanol yn awgrymu, er y bydd diwydiant yn elwa'n uniongyrchol ar ddefnyddio AI, defnyddwyr yn bennaf sy'n teimlo effaith y risgiau sy'n cael eu creu neu eu gwaethygu gan AI. Gyda hyn mewn golwg, rydyn ni'n credu bod gan Ofcom rôl hollbwysig yn cefnogi diwydiant i elwa ar yr arloesi a'r cyfleoedd a ddaw yn sgil AI, gan sicrhau bod y manteision hynny'n cael eu trosglwyddo i ddefnyddwyr hefyd a bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i liniaru unrhyw risgiau. Mae diweddariad manylach ar ein gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf i fynd i'r afael â risgiau cysylltiedig ag AI yn Adran 4: 'Sut mae Ofcom yn meithrin arloesedd diogel a chyfrifol'.

2.3 **Drwy sganio'r gorwel, rydyn ni'n ymwybodol bod llawer o'n rhanddeiliaid a'n defnyddwyr eisoes yn gweld rhai o'r manteision hyn sy'n cael eu creu gan AI**, ac rydyn ni'n rhag-weld y bydd y rhain yn dod yn fwy cyffredin ac eang yn y dyfodol. Rydyn ni wedi nodi amrywiaeth o enghreifftiau penodol i sectorau o sut gallai AI greu cyfleoedd i ddiwydiant ac i ddefnyddwyr yn Ffigur 2 isod. Ni fwriedir i'r trosolwg hwn fod yn rhestr gynhwysfawr o bob achos defnydd AI yn ein sectorau – yn hytrach mae'n drosolwg lefel uchel o rai o'r cyfleoedd sylweddol rydyn ni'm eu gweld neu'n debygol o'u gweld ar draws ein sectorau.

2.4 **Nid ydym wedi gwahanu ein henghreifftiau o gyfleoedd AI yn achosion defnydd 'presennol' neu 'yn y dyfodol' gan ein bod yn cydnabod bod diwydiant yn dal i arbrofi ag AI**, sy'n golygu bod llawer o achosion defnydd presennol yn debygol o ddatblygu a gwella i greu manteision yn y dyfodol. Mae'r rhan fwyaf o'n henghreifftiau'n perthyn i'r categori hwn – mae'r achosion defnydd sy'n cael eu disgrifio yn dechnegol bosib yn barod ac efallai fod rhai cwmnïau ac unigolion yn eu defnyddio'n barod, ond rydyn ni'n debygol o weld rhagor o fabwysiadu a rhagor o fanteision yn y dyfodol. Fodd bynnag, rydyn ni wedi nodi dau achos defnydd 'yn y dyfodol yn unig' ar draws ein sectorau – **rheoli sbectrwm yn well**; a'r **llwybrau gorau ar gyfer danfon post**.

**Ffigur 2: Meysydd o gyfleoedd sylweddol ar gyfer arloesedd AI ym mhob un o'r sectorau mae Ofcom yn eu rheoleiddio**

| Sector(au) perthnasol | Disgrifiad o'r cyfle | Manteision i ddiwydiant ac i ddefnyddwyr |
|---|---|---|
| **Sbectrwm** | **Rheoli sbectrwm yn well**: Yn y dyfodol, gallai systemau sy'n cael eu pweru gan AI ei gwneud hi'n bosib rhannu sbectrwm mewn amser real ymysg nifer o ddefnyddwyr neu rwydweithiau, yn enwedig mewn bandiau sy'n cael eu tanddefnyddio, a gallai ganfod patrymau ymyriant ac addasu dyraniadau amledd.<br><br>Byddai modd defnyddio AI i ddyrannu sbectrwm yn y ffordd orau bosib hefyd, drwy rag-weld ardaloedd galw uchel ac ailddyrannu amleddau yn ddeinamig. | • Gallai **canfod ymyriant** ac **addasu dyraniadau amledd** gan ddefnyddio AI leihau tarfu yn awtomatig, gan wella ansawdd gwasanaethau i ddefnyddwyr yn ogystal â gwella effeithlonrwydd i ddiwydiant.<br><br>• Gallai **rheoli sbectrwm yn ddeinamig** leihau tagfeydd ar rwydweithiau a helpu i wella effeithlonrwydd rhwydweithiau er mwyn darparu gwasanaeth gwell i ddefnyddwyr. |
| **Telegyfathrebiadau** | **Rheoli rhwydweithiau yn well a'u gwneud yn fwy effeithlon**: Mae AI yn gallu rhag-weld anghenion cynnal a chadw rhwydweithiau telegyfathrebiadau, canfod anghysondebau, ailddyrannu adnoddau'n ddeinamig i atal tagfeydd, a chanfod a lliniaru bygythiadau i ddiogelwch yn gyflym.<br><br>Mae AI hefyd yn gallu helpu i wneud y defnydd gorau posib o seilwaith ffisegol, a gallai helpu i nodi asedau yn gyflymach ac yn fwy effeithlon.<br><br>Hefyd mae modd defnyddio AI yn y rhwydwaith (ee Rhwydwaith Mynediad Radio) i helpu i leihau'r defnydd o bŵer yng ngweithrediadau'r rhwydwaith. | • Gall **rheoli rhwydweithiau'n ddeinamig** helpu i wella ansawdd gwasanaethau a dibynadwyedd y rhyngrwyd, gan elwa busnesau a chwsmeriaid telegyfathrebiadau unigol.<br><br>• Gall **gwneud y defnydd gorau posib o seilwaith** helpu i atal dyblygu asedau'n ddiangen, gan arbed arian a defnyddio llai o adnoddau.<br><br>• Gallai **defnyddio AI mewn rhwydweithiau i reoli'r defnydd o bŵer** wella cynaliadwyedd yn y dyfodol, drwy leihau allyriadau o'r defnydd o bŵer a lleihau costau ynni i ddarparwyr rhwydweithiau. |

| Sector(au) perthnasol | Disgrifiad o’r cyfle | Manteision i ddiwydiant ac i ddefnyddwyr |
|---|---|---|
| **Post** | **Gwella effeithlonrwydd gwasanaethau post:** Gall AI roi hwb i effeithlonrwydd gweithredol yn y sector post drwy helpu i adnabod cyfeiriadau mewn llawysgrifen a dilyniannu llythyrau.<br><br>Gallai AI hefyd ddarparu cyfle yn y dyfodol i gwmnïau post, drwy helpu i ddod o hyd i’r llwybrau gorau ar gyfer danfon post a pharseli. | • Mae **helpu i adnabod cyfeiriadau a dilyniannu llythyrau** yn gallu gwella effeithlonrwydd prosesu post yn sylweddol, gan arbed amser a chostau i gwmnïau post. Gall adnabod cyfeiriadau’n well fod o fudd i ddefnyddwyr hefyd, oherwydd gallai helpu i wneud y gwasanaeth post yn fwy dibynadwy.<br><br>• Byddai **nodi’r llwybrau danfon mwyaf effeithlon** yn arbed arian i gwmnïau post ac yn helpu i leihau allyriadau carbon. Gallai hefyd wella dibynadwyedd ac ansawdd gwasanaethau post. |
| **Darlledu a’ r Cyfryngau** | **Cymorth a syniadaeth greadigol:** Gellir defnyddio AI ar draws y broses greadigol, o helpu artistiaid i ddatblygu syniadau cychwynnol i optimeiddio’r broses o ddosbarthu cynnwys.<br><br>Erbyn hyn, gall unigolion a chwmnïau, ar-lein ac mewn cyfryngau traddodiadol, ddefnyddio adnoddau AI i gynhyrchu testun, delweddau, fideo a sain i safon resymol i helpu i ddatblygu a chynhyrchu cynnwys ar gyfer defnyddwyr. | • **Gellir defnyddio AI ar draws y broses greadigol** i arbed amser a lleihau costau. Gallai hyn fod o fudd i artistiaid a diwydiant, gan fod llawer o’r tasgau y gellir cael cymorth AI ar eu cyfer yn cymryd llawer o amser ac yn ailadroddus. Gall defnyddio AI ryddhau amser artistiaid ar gyfer gwaith mwy creadigol, gan arbed arian ar yr un pryd.<br><br>• Gall **defnyddio adnoddau AI i gynhyrchu testun, delweddau, fideo a sain** helpu i leihau rhwystrau mynediad i bobl greadigol, gan ei fod yn costio llai i gynhyrchu a dosbarthu cynnwys. Gall hyn fod o fudd i ddefnyddwyr drwy gefnogi mwy o gynnwys ac amrywiaeth ehangach o gynnwys sy’n adlewyrchu eu diddordebau. |
| | **Cyfryngau mwy hygyrch**: Mae AI yn gwella hygyrchedd drwy gynhyrchu capsiynau amser real, cyfieithu cynnwys i nifer o ieithoedd, a darparu disgrifiadau sain a throsleisio awtomataidd i helpu cynulleidfaoedd amrywiol. | • Mae darparu adnoddau i **gynhyrchu nodweddion hygyrchedd amser real yn awtomatig** yn ei gwneud hi’n haws i gynulleidfaoedd o bob cefndir a gallu ddefnyddio cyfryngau.<br><br>• Gallai’r **adnoddau hygyrchedd** hyn yn arbennig gynyddu gallu cynulleidfaoedd ag anableddau a siaradwyr Saesneg anfrodorol i gael gafael ar gynnwys.<br><br>• Mae **awtomeiddio nodweddion hygyrchedd** yn arbed amser ac arian i gwmnïau/crewyr cyfryngau a chynnwys ar-lein. |

| Sector(au) perthnasol | Disgrifiad o'r cyfle | Manteision i ddiwydiant ac i ddefnyddwyr |
|---|---|---|
| **Ar-lein** | **Gwella diogelwch ar-lein drwy ddefnyddio AI i gymedroli cynnwys**: Mae defnyddio AI i gymedroli cynnwys yn gallu canfod a dileu cynnwys niweidiol neu amhriodol yn effeithlon ar raddfa fawr. Mae cwmnïau'n defnyddio mwy a mwy o offer awtomataidd sy'n cael eu pweru gan AI i hidlo a fflagio cynnwys, ac i wneud penderfyniadau cymedroli ynghylch cynnwys amhriodol neu niweidiol. | • Mae **defnyddio AI i gymedroli cynnwys** yn gallu yn gallu gwella diogelwch ar-lein drwy nodi a lliniaru cynnwys niweidiol ar raddfa fawr ac yn gyflymach, gan sicrhau canlyniadau gwell i ddefnyddwyr llwyfannau ar-lein.<br>• Mae **cymedroli cynnwys yn awtomataidd yn rhannol** drwy ddefnyddio AI hefyd yn gallu helpu i arbed amser ac arian i gwmnïau ar-lein drwy ryddhau amser i weithwyr weithio ar dasgau mwy cymhleth. |
| | **Datblygu meddalwedd yn fwy effeithlon:** Mae gan AI y potensial i wella effeithlonrwydd ac ansawdd gwaith datblygu meddalwedd yn sylweddol, er enghraifft drwy helpu i gynhyrchu ac adolygu codau, ac i ddadfygio codau'n awtomatig. | • Mae **datblygu meddalwedd o ansawdd uchel yn fwy effeithlon** yn arbed amser i weithwyr – amser y gellir ei ddefnyddio ar dasgau mwy diddorol a chreadigol. Gallai hyn fod yn arbennig o werthfawr i ddatblygwyr gemau, gan fod creu gemau gan ddefnyddio dulliau codio 'traddodiadol' yn gallu bod yn hir ac yn gostus.<br>• Gall **defnyddio AI i helpu i gynhyrchu ac adolygu codau** hefyd leihau'r rhwystrau mynediad i'r farchnad ar gyfer cwmnïau bach neu unigolion, oherwydd gallai busnes heb sgiliau datblygu meddalwedd ddefnyddio AI i adeiladu cynnyrch ac amgylcheddau digidol. |

2.5 **Mae ein gwaith sganio'r gorwel hefyd wedi nodi nifer o gyfleoedd sylweddol ar gyfer arloesi nawr ac yn y dyfodol ar draws y sector cyfathrebiadau yn ei gyfanrwydd.** Er enghraifft, gall AI helpu ein cwmnïau sy'n cael eu rheoleiddio i gyflawni eu gweithgareddau'n gyflymach ac am gost is drwy ganiatáu iddynt awtomeiddio agweddau ar eu gwaith. Oherwydd ei bod yn bosib y byddwn yn gweld manteision y cyfleoedd AI hyn yn unrhyw un o'n sectorau sy'n cael eu rheoleiddio, mae rhai o'r cyfleoedd eisoes wedi cael eu crybwyll yn Ffigur 2. Mae rhagor o fanylion am y cyfleoedd AI traws-sectoraidd hyn, ac enghreifftiau eraill rydyn ni wedi'u nodi, wedi'u crynhoi yn Ffigur 3 isod.[2]

[2] Rydyn ni'n ymwybodol y gall pob un o'r cyfleoedd hyn hefyd greu risgiau posib. Mae rhagor o fanylion am ein gwaith i ddeall a lliniaru risgiau o achosion defnydd AI ar gael yn Adran 4: 'Sut mae Ofcom yn meithrin arloesedd diogel a chyfrifol'.

**Ffigur 3: Meysydd o gyfleoedd sylweddol ar gyfer arloesedd AI ar draws pob un o'r sectorau mae Ofcom yn eu rheoleiddio**

| Disgrifiad o'r cyfle | Manteision i ddiwydiant ac i ddefnyddwyr |
|---|---|
| **Mwy o gystadleuaeth yn y farchnad:** Mae AI yn lleihau'r rhwystrau mynediad i lawer o'n diwydiannau sy'n cael eu rheoleiddio, yn enwedig y cyfryngau a darparwyr cynnwys ar-lein. | • Gall defnyddio AI leihau'r gost a'r amser sydd eu hangen i greu a darparu cynnyrch/gwasanaethau cyfathrebu penodol, gan **leihau'r rhwystrau mynediad i'r diwydiant cyfathrebiadau**. Gall llai o rwystrau mynediad ganiatáu i chwaraewyr llai gystadlu â chwmnïau sefydledig, gan helpu i gefnogi twf economaidd yn y DU.<br>• Yn ei dro, mae caniatáu i chwaraewyr llai ymuno a chystadlu yn ein sectorau sy'n cael eu rheoleiddio yn gallu creu swyddi a chyfleoedd yn economi'r DU. |
| **Mwy o awtomeiddio:** Gall AI helpu i gyflymu a/neu awtomeiddio tasgau ailadroddus fel cymryd nodiadau, trefnu a thrawsgrifio cyfarfodydd, dadansoddi dogfennau, datblygu hyfforddiant staff a deunyddiau cynefino, a chynhyrchu adroddiadau rheolaidd. | • Gall yr amser sy'n cael ei arbed drwy **awtomeiddio gwaith ailadroddus** ryddhau capasiti i weithwyr ganolbwyntio ar weithgareddau mwy cymhleth a diddorol, a allai arwain at allbynnau gwaith ac arloesedd mwy gwerthfawr.<br>• Mae **mwy o awtomeiddio** yn gyffredinol hefyd yn debygol o leihau costau gweithredu i fusnesau, er enghraifft os ydynt yn dewis ailstrwythuro eu gweithlu. |
| **Gwella gwasanaethau i gwsmeriaid:** Mae llawer o gwmnïau bellach yn dechrau defnyddio AI cynhyrchiol (GenAI) i helpu i ddarparu gwasanaethau i gwsmeriaid, yn fwyaf cyffredin drwy sgwrsfotiau GenAI. | • Gall **awtomeiddio rhan o'r daith gwasanaethau i gwsmeriaid gan ddefnyddio GenAI** – yn gyfrifol – fod o fudd i'r defnyddiwr ac i'r cwmni. Gall defnyddwyr elwa ar amseroedd aros byrrach am wasanaethau i gwsmeriaid a gallai hyn wella bodlonrwydd cwsmeriaid, gan helpu diwydiant i ddenu cwsmeriaid a gwneud mwy o arian. |
| **Mwy o bersonoli:** Mae llawer o gwmnïau eisoes yn defnyddio algorithmau i dargedu cynnwys personol, gan gynnwys hysbysebion, at gynulleidfaoedd.<br>Mae AI yn cynnig cyfleoedd ar gyfer mwy byth o bersonoli, er enghraifft darparu uchafbwyntiau chwaraeon a newyddion wedi'u teilwra i unigolyn. Gallai cwmnïau hefyd ddechrau defnyddio GenAI i ddatblygu hysbysebion personol iawn. | • Gall **mwy o bersonoli** greu manteision i ddefnyddwyr drwy eu helpu i lywio drwy'r lefelau enfawr o gynnwys sydd ar gael i ddod o hyd i'r hyn sy'n fwy perthnasol a diddorol iddyn nhw.<br>• Gallai **gwasanaethau a chynnyrch wedi'u teilwra** hefyd helpu defnyddwyr i arbed arian ac amser, ac argymell gwasanaethau hygyrch sy'n addas i anghenion penodol cwsmer.<br>• Gall **targedu gwell** hefyd helpu diwydiant i ennyn diddordeb cynulleidfaoedd/cwsmeriaid yn well, gan helpu i gynyddu refeniw.<br>• Gallai **defnyddio GenAI i helpu i ddatblygu hysbysebion** helpu diwydiant i arbed costau creu hysbysebion, o bosib drwy awtomeiddio gwaith ailadroddus. |

| Disgrifiad o’r cyfle | Manteision i ddiwydiant ac i ddefnyddwyr |
|---|---|
| **Defnyddio data i roi hwb i refeniw:** Gall AI helpu i fonitro a chrynhoi teimladau ac adborth cwsmeriaid ar draws gwahanol lwyfannau ar-lein, gan alluogi busnesau i nodi meysydd i’w gwella neu bethau sydd o werth penodol i gwsmeriaid.<br><br>Gall dysgu peirianyddol hefyd nodi cydberthnasau a thueddiadau mewn marchnadoedd a llif arian i wella cywirdeb rhagolygon busnes hirdymor. | • Mae **monitro a chrynhoi teimladau cwsmeriaid drwy AI** yn gallu bod o fudd i gwmnïau drwy lywio eu strategaethau busnes yn y dyfodol a drwy ennyn diddordeb cwsmeriaid yn well. Gallai busnesau wedyn drosglwyddo’r budd hwn i ddefnyddwyr, drwy adeiladu cynnyrch sy’n bodloni anghenion cwsmeriaid yn well. Gyda’i gilydd, mae’r effeithiau hyn yn gweithio i sbarduno twf ar draws ein sectorau.<br><br>• Gallai **gwella cywirdeb rhagolygon busnes hirdymor** helpu diwydiant i baratoi’n well ar gyfer amrywiadau yn y farchnad, gan wneud eu modelau busnes yn fwy cynaliadwy a gwydn. Gallai gwella gwydnwch diwydiant hefyd wneud gwasanaethau’n fwy dibynadwy i ddefnyddwyr. |
| **Gwella galluoedd ymchwil a datblygu:** Gellir defnyddio AI i wella galluoedd ymchwil a datblygu sefydliadau, gan eu galluogi i arloesi'n effeithlon ac archwilio achosion defnydd newydd. | • Mae **gwella galluoedd ymchwil a datblygu**, yn rhannol drwy ddefnyddio AI i awtomeiddio tasgau penodol a rhyddhau amser ar gyfer meddwl yn fwy creadigol, yn gallu bod o fudd i ddiwydiant drwy ganiatáu i sefydliadau brototeipio ac arloesi cynnyrch newydd yn gyflym heb fawr o gost.<br><br>• Gall **arloesi mwy effeithlon** hefyd leihau’r rhwystrau mynediad i farchnad drwy ei gwneud hi’n gyflymach ac yn haws profi cynnyrch a gwasanaethau newydd. Gall hyn gynnig mwy o gynnyrch a gwasanaethau posib i ddefnyddwyr, a allai greu manteision iddyn nhw hefyd. |

# 3. Sut mae ein gwaith yn cefnogi arloesedd AI yn ein sectorau

3.1 **Mae ein gwaith rheoleiddio'n dal yn addas ar gyfer y dyfodol gan ein bod yn canolbwyntio'n bennaf ar ganlyniadau yn hytrach na thechnolegau penodol, a gallwn weithredu'n unol â'n pwerau presennol i sicrhau'r canlyniadau hyn.** Mae ein Hegwyddorion Rheoleiddio yn egluro bod Ofcom, ymysg pethau eraill, yn gweithredu gyda'r nod o beidio ag ymyrryd, ond ein bod yn barod i ymyrryd yn brydlon ac yn effeithiol pan fo angen. Mae'r dull hwn yn rhoi'r rhyddid i'r gwasanaethau rydyn ni'n eu rheoleiddio arbrofi ac arloesi, ar yr amod eu bod yn gwneud hynny'n ddiogel. Mae'r gwasanaethau y mae Ofcom yn eu rheoleiddio hefyd yn gallu defnyddio AI heb ofyn i ni am ganiatâd gyntaf, sy'n helpu i alluogi arloesi cyflymach drwy leihau gwrthdaro rheoleiddiol.

3.2 **Rydyn ni hefyd yn gweithio i sicrhau bod ein gwaith rheoleiddio yn gymesur** a bod ymyriadau'n seiliedig ar dystiolaeth, yn gyson, yn atebol ac yn dryloyw wrth eu hystyried ac o ran canlyniadau. Rydyn ni'n ymgynghori'n eang â'r holl randdeiliaid perthnasol ac yn asesu effaith camau rheoleiddio cyn rheoleiddio marchnad. Mae Ofcom yn cynnal y dull gweithredu hwn ar draws yr holl wasanaethau rydyn ni'n eu rheoleiddio, gan gynnwys y rhai sy'n defnyddio AI, i sicrhau nad ydym yn atal y potensial ar gyfer twf yn ein sectorau drwy gymryd camau anghymesur.

3.3 **Rydyn ni'n parhau i adolygu ein gwaith rheoleiddio i asesu a yw'n dal yn berthnasol ac yn cyflawni ein nodau.** Rydyn ni'n archwilio ein gwaith rheoleiddio mewn ffyrdd systematig ac ad hoc i ystyried a yw'n cael yr effaith ddymunol. Lle bo angen, byddwn yn cael gwared ar reoliadau os oes angen, i wneud yn siŵr ein bod yn dal yn cyflawni ein nodau rheoleiddio ac nad ydym yn rhoi baich anghymesur ar ddiwydiant a allai atal arloesedd a thwf. Byddwn yn parhau i asesu'r effaith y gallai datblygiadau technolegol fel AI ei chael ar ein sectorau, ac unrhyw oblygiadau i'n gallu i gyflawni ein canlyniadau rheoleiddio.

3.4 **Mae ein gwaith i gefnogi arloesedd AI yn seiliedig ar ein dull rheoleiddio.** Drwy helpu diwydiant i ddefnyddio AI yn fwy hyderus, yn ddiogel, ac mewn amrywiaeth o wahanol ffyrdd, dylai hyn arwain at arloesi yn y sectorau rydyn ni'n eu rheoleiddio. Rydyn ni wedi grwpio ein gwaith i helpu i gefnogi arloesedd AI i'r categorïau canlynol, gydag enghreifftiau penodol ar gyfer 2025/2026 wedi'u crynhoi isod yn Ffigur 4:

a) **Buddsoddi mewn ymchwil AI ymarferol a thechnegol, gan gynnwys drwy flychau tywod a labordai technegol** – Mae creu lle diogel i arbrofi â thechnoleg (gan gynnwys gydag AI) yn helpu i sicrhau bod gan y DU seilwaith sy'n gallu parhau i gefnogi, hybu a chynyddu arloesedd a thwf;

b) **Darparu setiau data mawr i helpu i hyfforddi a datblygu modelau AI** – Gall cyhoeddi ein data a sicrhau ei fod ar gael i ddiwydiant helpu i gefnogi arloesedd AI. Byddai modd defnyddio ein data i hyfforddi a datblygu modelau AI, gwella eu hallbynnau a helpu i ddatgloi manteision AI i sector cyfathrebiadau'r DU yn gyflymach;

c) **Cydweithio â sefydliadau eraill i sicrhau cysondeb rheoleiddiol** – Drwy weithio gyda rheoleiddwyr a sefydliadau eraill, gallwn weithredu'n gyflym i ddeall y technolegau sy'n dod i'r amlwg a helpu i osod rheolau a safonau i ddarparu'r eglurder rheoleiddiol sydd ei angen i hybu arloesi diogel;

d) **Meithrin cysylltiadau a darparu cymorth gweithredol i randdeiliaid i gynyddu eglurder rheoleiddiol** – Mae ein cysylltiad agos â'r gwasanaethau rydyn ni'n eu rheoleiddio, gan gynnwys gwasanaethau dan oruchwyliaeth, yn helpu i gefnogi busnesau a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am gynlluniau diwydiant nawr ac yn y dyfodol ar gyfer defnyddio AI. Rydyn ni hefyd yn gweithio gyda'n partneriaid yn y Fforwm i ddarparu cymorth traws-sectoraidd mwy ymarferol i fusnesau sy'n awyddus i arloesi gydag AI.

**Ffigur 4: Crynodeb lefel uchel ac enghreifftiau o sut gall gwaith Ofcom yn 2025/26 gefnogi arloesedd AI yn ein sectorau**

| Sut gall ein gwaith gefnogi'r defnydd o AI yn ein sectorau | Beth fyddwn ni'n ei wneud a sut dylai hyn gefnogi arloesedd |
|---|---|
| **Buddsoddi mewn ymchwil AI ymarferol a thechnegol, gan gynnwys drwy flychau tywod a labordai technegol** | • **Rydyn ni wedi datblygu 'blychau tywod sbectrwm', sy'n cael eu hariannu gan yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg, a oedd yn edrych ar dechnolegau newydd i fesur ac adrodd ar y defnydd o sbectrwm ac ymyriant.** Gallai mabwysiadu'r technolegau hyn mewn rhwydweithiau radio ddarparu'r data angenrheidiol ar gyfer defnyddio mwy ar AI/dysgu peirianyddol wrth reoli sbectrwm, gan arwain at **rwydweithiau radio mwy dibynadwy a defnydd mwy effeithlon o sbectrwm**.<br>• Bydd ein Labordy Technoleg Diogelwch Ar-lein mewnol yn parhau i **gefnogi ymchwil ymarferol i dechnolegau diogelwch**, gan alluogi cydweithwyr i ymchwilio i hyd a lled a grym technolegau diogelwch ar-lein, a dangos hyn. Mae Ofcom wedi ymchwilio i'r defnydd o GenAI i helpu ymdrechion cymedroli cynnwys. Er enghraifft, byddai modd defnyddio GenAI i gynhyrchu cynnwys synthetig i lenwi bylchau yn y data hyfforddi sy'n cael ei ddefnyddio i ddatblygu adnoddau cymedroli cynnwys. Mae cefnogi ymchwil i dechnolegau diogelwch yn meithrin arloesedd diogel drwy **ddatblygu adnoddau ar gyfer diogelwch ar-lein y gallai eraill eu defnyddio a drwy sefydlu canllawiau clir ar gyfer datblygiadau diwydiant**.<br>• Mae Ofcom a Digital Catapult yn cydweithio yn y Labordai SONIC, gan ddarparu gofod profi rhyngweithredol ('Open RAN') ar gyfer gwerthwyr cyfarpar rhwydweithiau symudol. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys astudiaeth dechnegol i ddeall y defnydd o AI mewn rhwydweithiau symudol. **Yn ogystal â chefnogi dull y sector symudol o ddefnyddio AI, gall y gwaith hwn helpu i lywio ein canllawiau yn y dyfodol ar gadernid rhwydweithiau ar gyfer gweithredwyr symudol**. Mae Ofcom yn cael ei gynrychioli ar fwrdd goruchwylio Labordy Telegyfathrebiadau'r DU hefyd, sy'n **darparu rhywle i weithredwyr a gwerthwyr brofi diogelwch, cadernid, a'r gallu i ryngweithredu ar rwydweithiau profi sydd bron â bod yn gynrychioladol**.<br>• Byddwn yn parhau â'n gwaith ymchwil ar **ddefnyddio dysgu peirianyddol ar gyfer modelau ymledu tonnau radio mwy effeithlon a dibynadwy**. Gallai'r ymchwil hwn **wella cywirdeb a chyflymder cynllunio sbectrwm** a drwy hynny wella effeithlonrwydd sbectrwm, yn ogystal â galluogi gwell perfformiad ac arloesedd, a darparu gwybodaeth well am argaeledd gwasanaethau i ddefnyddwyr, fel derbyniad radio (DAB) a theledu. |

| Sut gall ein gwaith gefnogi'r defnydd o AI yn ein sectorau | Beth fyddwn ni'n ei wneud a sut dylai hyn gefnogi arloesedd |
|---|---|
| **Darparu setiau data mawr i helpu i hyfforddi a datblygu modelau AI** | • Rydyn ni'n **cyhoeddi'r holl ddata ymchwil heb fod yn gyfrinachol a gasglwn, gyda setiau data mawr ar gael mewn fformatau y gall peiriant eu darllen**. Er enghraifft, mae ein hadroddiad Cysylltu'r Gwledydd blynyddol yn darparu data ar seilwaith cyfathrebu, defnydd a darpariaeth. Mae ein data o'r holl sectorau rydyn ni'n eu rheoleiddio ar gael yn yr adran Ymchwil, Ystadegau a Data ar wefan Ofcom.<br>• Mae Ofcom wedi **buddsoddi mewn cynhyrchu setiau data mawr ac unigryw sy'n ymwneud â sbectrwm yr ydym yn eu cyhoeddi fel Data Agored** (ee sut mae sbectrwm yn cael ei ddefnyddio yn y DU, data mesur cryfder signal symudol, a mwy[3]). Gallai hyn **alluogi'r byd academaidd a diwydiant i ddefnyddio data hyfforddi o ansawdd uchel sy'n benodol i'r DU ar gyfer modelau AI o'r radd flaenaf ar gyfer achosion defnydd sbectrwm**. Gall darparu'r data hwn (a all fod yn brin) er mwyn helpu i hyfforddi a datblygu modelau gefnogi arloesedd, drwy ddarparu rhwydweithiau radio sy'n perfformio'n well ac sy'n costio llai. |

[3] Rydyn ni hefyd wedi cyhoeddi data ar ymledu tonnau radio a mesur sŵn radio cefndir.

| Sut gall ein gwaith gefnogi'r defnydd o AI yn ein sectorau | Beth fyddwn ni'n ei wneud a sut dylai hyn gefnogi arloesedd |
|---|---|
| **Cydweithio â sefydliadau eraill i ddarparu cysondeb rheoleiddiol** | • Mewn partneriaeth â rheoleiddwyr eraill y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol (DRCF), **fe wnaethom gynnal digwyddiad Fforwm GenAI Cyfrifol** ym mis Mawrth 2025 **i amlygu arferion gorau o ran defnyddio'r dechnoleg hon yn gyfrifol** ac i **roi gwybod am ein safbwyntiau polisi cyffredin**. Daeth 200 o arbenigwyr a phenderfynwyr yn y maes i'r digwyddiad hwn. Gall yr wybodaeth a'r arferion gorau a rannwyd yn ystod y digwyddiad helpu i **gefnogi diwydiant i arloesi nawr ac yn y dyfodol drwy ddarparu cysondeb ac eglurder rheoleiddiol.**<br>• Rydyn ni'n gweithio gyda Sefydliad Alan Turing i **adeiladu tacsonomeg ar gyfer technoleg diogelwch**. Mae darparu cysondeb ac eglurder rheoleiddiol yn helpu i **leihau'r beichiau rheoleiddio** a roddir ar sefydliadau, **gan ryddhau eu hamser a'u hadnoddau i ganolbwyntio ar arloesi diogel.**<br>• Mae gan Ofcom **berthynas waith gadarn** â'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol ac mae'n **gwerthuso cyfleoedd AI yn barhaus** gan gyfeirio'n benodol at Ddeddf Telegyfathrebiadau (Diogelwch) 2021.<br>• Rydyn ni'n **gweithio gydag amrywiaeth o randdeiliaid yn rhyngwladol**, gan gynnwys rheoleiddwyr eraill, cyrff safoni, arbenigwyr academaidd, a diwydiant, **i fonitro datblygiadau, cyfleoedd a dulliau AI sy'n dod i'r amlwg**, a'u goblygiadau ar draws ein sectorau sy'n cael eu rheoleiddio. |

| | |
|---|---|
| **Meithrin cysylltiadau a darparu cymorth gweithredol i randdeiliaid i gynyddu eglurder rheoleiddiol** | • Rydyn ni'n darparu cymorth traws-sectoraidd mwy ymarferol i fusnesau sy'n awyddus i arloesi gydag AI. Yn ystod 2024/25, treialodd y DRCF Hyb Deallusrwydd Artiffisial a Digidol a oedd yn darparu **cyngor anffurfiol am ddim i arloeswyr** sy'n dymuno defnyddio AI. Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid yn y Fforwm i lansio rhagor o gymorth i arloeswyr. Rydyn ni'n awyddus i adeiladu ar gynllun peilot yr Hyb a chydweithio ar draws y Fforwm fel bod **busnesau'n gallu** dod â **chynnyrch a gwasanaethau AI a digidol i'r farchnad yn gyfrifol, yn gyflymach ac yn fwy hyderus.**<br>• Byddwn yn dal i weithio gyda llwyfannau ar-lein mawr **i ddeall sut maen nhw'n defnyddio adnoddau AI, a sut gallan nhw barhau i arloesi'n ddiogel a defnyddio AI i wella diogelwch ar eu gwasanaethau.** Dyma enghreifftiau o'r hyn rydyn ni'n ceisio ei ddeall: sut mae gwasanaethau'n defnyddio offer cymedroli cynnwys, sut maen nhw'n defnyddio gwahanol fathau o AI i ddeall ymddygiad ac oedran defnyddwyr, a sut maen nhw'n defnyddio AI i ychwanegu gwrthdaro at daith y defnyddiwr er mwyn gwella diogelwch.<br>• Mae **gan sector cyfryngau'r DU enw da ar draws y byd am gynyrchiadau o ansawdd uchel a gweithlu eithriadol o fedrus**. Mae ganddo **hanes o lwyddo i ddenu mewnfuddsoddiadau sylweddol.** Yng nghyd-destun ein gwaith ehangach ar Gyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus, byddwn yn gweithio gyda'r llywodraeth a'n rhanddeiliaid i **ddeall y ffordd orau o adeiladu ar y llwyddiant hwn.** Byddwn yn cynnwys hyn yn ein hystyriaethau o ran **pa alluogwyr polisi y gallai fod eu hangen i gefnogi sector y cyfryngau o ran manteisio ar y cyfleoedd y gallai AI eu cynnig** ar gyfer darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, darparwyr newyddion, cynulleidfaoedd a'r sector cyfryngau yn gyffredinol. Byddwn yn nodi ein safbwyntiau cychwynnol yn ein hadolygiad o Gyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus sydd ar y gweill.<br>• Bu **cynnydd sylweddol yn nifer y darparwyr newydd sy'n arbenigo mewn gwasanaethau sicrwydd AI yn ystod y blynyddoedd diwethaf**. Mae Llywodraeth y DU yn ystyried bod potensial economaidd sylweddol yn y farchnad hon ac mae wedi cynnig nifer o fesurau i gefnogi ei datblygiad parhaus. Byddwn yn **parhau i weithio gyda'r sector datblygol hwn i dynnu sylw at gyfleoedd ar gyfer technegau archwilio a sicrwydd sy'n canolbwyntio ar ddiogelwch ar-lein.**<br>• Rydyn ni'n **datblygu adnoddau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ychwanegol i gefnogi rhanddeiliaid yn y maes**, gan gynnwys: |

| Sut gall ein gwaith gefnogi'r defnydd o AI yn ein sectorau | Beth fyddwn ni'n ei wneud a sut dylai hyn gefnogi arloesedd |
|---|---|
| | ○ Crynodeb o faterion sy'n edrych ar yr heriau a'r cyfleoedd o ran ymwybyddiaeth o'r cyfryngau y mae AI yn eu creu.<br>○ Y sgiliau sylfaenol sydd eu hangen i bawb fod ag ymwybyddiaeth dda o'r cyfryngau mewn ymateb i ofod gwybodaeth sy'n cael ei gyfryngu fwyfwy gan AI. |

# 4. Sut mae Ofcom yn meithrin arloesedd diogel a chyfrifol

4.1 **Mae gan Ofcom ddyletswyddau rheoleiddio a chanlyniadau rydyn ni am eu gweld, ac mae rheoli risgiau o wasanaethau sy'n defnyddio AI yn rhan hanfodol o gyflawni'r dyletswyddau a'r canlyniadau hyn.** Gall AI ddod â nifer o fanteision a chyfleoedd i ddiwydiant ac i ddefnyddwyr – ond mae risgiau posib yn gysylltiedig â llawer o'r achosion defnydd hefyd. Mae'n bwysig ein bod yn ymwybodol o'r risgiau hyn er mwyn i ni allu cymryd camau priodol i'w rheoli a diogelu defnyddwyr rhag niwed.

4.2 **Mae ein gwaith maes allanol yn awgrymu bod risgiau AI yn debygol o effeithio'n uniongyrchol ar ddefnyddwyr, tra gallai manteision AI fynd i fusnesau yn y lle cyntaf.** Felly, mae angen i ni wneud yn siŵr ein bod yn mynd ati'n rhagweithiol i ddeall effaith bosib y risgiau hyn a'n bod yn parhau i gymryd camau i'w lliniaru. Rydyn ni wedi parhau â'n dull o archwilio mathau o risgiau o safbwynt y defnyddiwr ar draws ffiniau sectorau. Mae hyn yn ein galluogi i liniaru risgiau trawsbynciol yn fwy effeithiol ac effeithlon wrth i ni eu harchwilio a mynd i'r afael â nhw mewn ffordd fwy cyfannol – gan weithio ar draws ein cylch gwaith fel rheoleiddiwr cyfathrebiadau cydgyfeiriol.

4.3 **Rydyn ni wedi adeiladu ar ein gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf i ail-werthuso risgiau allweddol AI.** Ar sail yr asesiad hwn, rydyn ni'n dal o'r farn mai'r tair risg a nodir yn ein Diweddariad Strategol ar Ddeallusrwydd Artiffisial yn 2024 yw'r rhai mwyaf perthnasol i'n sectorau a'n gwaith: cyfryngau synthetig, personoli, a diogelwch a chadernid. Mae'r rhain yn cael eu disgrifio isod:

a) **Cyfryngau synthetig**[4] – Gellir defnyddio adnoddau AI i greu cynnwys synthetig sy'n portreadu cam-drin plant yn rhywiol, gweithredoedd terfysgol, a chamddefnyddio delweddau personol ffugiad dwfn. Gellir eu defnyddio hefyd i gynhyrchu camwybodaeth a thwyllwybodaeth sy'n fwy argyhoeddiadol, yn ogystal â thwyll a sgamiau mwy soffistigedig a phersonol. Nid risgiau damcaniaethol yw'r rhain; mae defnyddio AI i greu deunydd synthetig niweidiol yn digwydd nawr ac yn dod yn fwy cyffredin. Roedd astudiaeth a gynhaliwyd gan Internet Matters wedi darganfod bod 10 y cant o blant rhwng 13 ac 16 oed naill ai wedi cael profiad uniongyrchol neu'n gwybod am rywun a oedd wedi cael profiad o gael eu portreadu mewn delweddau neu fideos noeth ffug. Yn y cyfamser, mae'r Internet Watch Foundation wedi darganfod bod adroddiadau am ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol wedi'i greu gan AI wedi mynd bedair gwaith yn fwy rhwng 2023 a 2024. Gall cyfryngau synthetig hefyd achosi niwed hyd yn oed pan fyddant yn cael eu defnyddio heb fwriad maleisus, er enghraifft drwy atgyfnerthu rhagfarnau cymdeithasol neu gynhyrchu gwallau anfwriadol;

b) **Personoli** – gall (ac mae) adnoddau AI yn cael eu defnyddio gan lawer o'n gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio i guradu a phersonoli'r cynnwys sy'n cael ei gyflwyno i ddefnyddwyr ar wasanaethau ar-lein yn y DU. Fel arfer cyfeirir at y rhain fel systemau argymell neu algorithmau. Gall systemau argymell, yn yr achosion mwyaf difrifol, arwain at fwy o risg y bydd defnyddwyr yn dod ar draws cynnwys anghyfreithlon

[4] Mae cyfryngau synthetig yn derm cyffredinol ar gyfer fideo, delwedd, testun neu lais sydd wedi'i gynhyrchu'n gyfan gwbl neu'n rhannol gan algorithmau AI

a niweidiol ar-lein. Gall hefyd achosi niwed drwy gynyddu'r risg o wneud defnyddwyr agored i niwed yn agored i gynnwys penodol a allai fod yn niweidiol iddynt. Gall systemau argymell sy'n defnyddio AI hefyd effeithio ar ba mor hawdd yw dod o hyd i gynnwys gwasanaethau cyhoeddus ac yn y DU, megis cynnwys newyddion, gan waethygu'r duedd bresennol o siambrau adlais. Gallai diffyg tryloywder o ran personoli AI effeithio ar allu defnyddwyr yn y DU i wneud dewisiadau gwybodus am y cynnwys maen nhw'n ei weld a'r gwasanaethau maen nhw'n eu defnyddio, a thanseilio eu preifatrwydd; a

c) **Diogelwch a chadernid** – Mae AI yn prysur ddod yn adnodd sefydledig ar ddwy ochr y rheng flaen diogelwch. Heb AI, roedd ymdrechion wedi'u targedu i ddwyn manylion unigolion penodol gyda mynediad at rwydweithiau breintiedig neu rwydweithiau awdurdodau ariannol o fewn cwmni yn gofyn am adnoddau medrus sylweddol. Mae AI bellach yn galluogi ymosodiadau i gael eu llunio'n gyflym ac yn rhad, gyda mwy a mwy o ansawdd ac effeithiolrwydd. Gellir defnyddio mathau mwy datblygedig o AI, fel GenAI, i ddatblygu maleiswedd fwy ffyrnig, canfod gwendidau mewn rhwydweithiau, a/neu roi cyfarwyddiadau ar sut i dorri diogelwch rhwydwaith. Ar ben hynny, gallai modelau GenAI sydd wedi'u datblygu'n wael hefyd gyfrannu at y risg o gyfnodau segur yn y system. Er enghraifft, os yw'r cod ffynhonnell yn aneffeithlon o ran ei ddefnydd o ynni neu led band, neu os yw defnydd eang o'r cod gan raglenni yn arwain at gyfnod segur cyffredinol. Mae'r defnydd o AI mewn offer amddiffyn diogelwch yn bwysig er mwyn awtomeiddio'r ymateb i'r ymosodiadau cynyddol hyn, ac mae hefyd yn cael ei ddefnyddio i amharu ar ymosodiadau a sgamiau.

4.4 Mae Ffigur 5 isod yn cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith i fynd i'r afael â'r risgiau hyn, ac mae rhagor o fanylion am ein gwaith yn y dyfodol i gefnogi arloesedd a mynd i'r afael â risgiau sy'n gysylltiedig ag AI ar gael yn Atodiad 1.

**Ffigur 5: Meysydd o risgiau allweddol ac enghreifftiau o waith Ofcom hyd yma i fynd i'r afael â'r risgiau hyn**

| Risgiau allweddol | Enghreifftiau o'n gwaith yn ystod 2024/25 i fynd i'r afael â risg |
|---|---|
| **Cyfryngau synthetig** | • Cyhoeddwyd llythyr agored i ddarparwyr gwasanaethau ar-lein yn egluro sut mae rhai mathau o apiau a sgwrsfotiau GenAI o fewn cwmpas y dyletswyddau diogelwch ar-lein.<br>• Cyd-gynhaliwyd digwyddiad Fforwm GenAI Cyfrifol DRCF a ddaeth â lleisiau diwydiant, cymdeithas sifil a rheoleiddio at ei gilydd i ystyried sut y gellid mynd i'r afael â'r risgiau posib a berir gan GenAI.<br>• Cyhoeddwyd tri datganiad yn amlinellu sut rydyn ni'n diogelu defnyddwyr rhag risgiau ar-lein – gan gynnwys y rheini a berir gan GenAI. Yn ein datganiadau ar niwed anghyfreithlon ac amddiffyn plant, rydyn ni'n amlinellu sut gall llwyfannau nodi a rheoli risgiau, gan gynnwys risgiau sy'n deillio o rannu cynnwys synthetig anghyfreithlon a chynnwys synthetig sy'n niweidiol i blant.<br>• Roedd ein datganiad ar sicrwydd oedran yn amlinellu sut gall gwasanaethau sy'n dangos neu'n cyhoeddi eu cynnwys pornograffig eu hunain, gan gynnwys gydag adnoddau GenAI, gyflwyno archwiliadau oedran cadarn.<br>• Cyhoeddwyd ein canllawiau ar sut gall gwasanaethau ar-lein sy'n cael eu rheoleiddio fynd i'r afael â thrais ar sail rhywedd ar-lein, sy'n cynnwys ymyriadau i fynd i'r afael â niwed sy'n cael ei alluogi gan AI fel cynnwys ffugiad dwfn heb gydsyniad.<br>• Cyhoeddwyd dau bapur trafod sy'n edrych ar rinweddau a chyfyngiadau ymyriadau i fynd i'r afael â risgiau GenAI. Roedd un o'r papurau hyn yn canolbwyntio ar gynnal ymarferion tîm coch, sef math o werthusiad model AI sy'n helpu i ddod â chynnwys niweidiol i'r amlwg. Roedd y papur arall yn edrych ar fesurau i fynd i'r afael â chreu a rhannu ffugiadau dwfn niweidiol, gan gynnwys delweddau personol ffugiad dwfn a hysbysebion twyllodrus ffugiad dwfn, er enghraifft defnyddio hidlyddion model, dyfrnodau a swyddogaethau adrodd defnyddwyr.<br>• Cynhaliwyd gweithdy yn ystod ein Cynhadledd Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau yn 2024 ar gamwybodaeth a thwyllwybodaeth i ddangos sut y gellid defnyddio'r hyn a elwir yn 'fesurau priodoli' fel metadata a chynlluniau labelu i wella ymwybyddiaeth o'r cyfryngau a helpu defnyddwyr i ganfod a gwneud synnwyr o gynnwys synthetig.<br>• Trafodwyd â darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a darparwyr newyddion i ddeall sut mae'r sefydliadau hyn yn defnyddio adnoddau AI a GenAI yn yr ystafell newyddion, ac i ymchwilio i'r heriau a'r cyfleoedd a allai ddeillio o ddefnyddio adnoddau AI a GenAI gan weithredwyr allweddol eraill ar draws y gadwyn gwerth cyfryngau newyddion. Cyhoeddir ein canfyddiadau yn yr Adolygiad o Gyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus. |

| | |
|---|---|
| **Personoli** | • Cyhoeddwyd ein datganiad Niwed Anghyfreithlon o dan y dren diogelwch ar-lein, sy'n cynnwys mesurau sy'n argymell bod rhai gwasanaethau'n casglu metrigau diogelwch wrth brofi systemau argymell (a allai gynnwys systemau sy'n defnyddio AI), er mwyn gwella diogelwch ar-lein.<br><br>• Cyhoeddwyd ein datganiad Amddiffyn Plant, sy'n cynnwys mesurau sy'n argymell y dylai darparwyr gwasanaethau sy'n defnyddio systemau argymell gymryd camau i'w dylunio a'u ffurfweddu er mwyn hidlo cynnwys niweidiol o ffrydiau cynnwys plant. Rydyn ni hefyd wedi argymell mesur sy'n rhoi gwell rheolaeth i blant dros eu ffrydiau drwy eu galluogi i roi adborth negyddol ar gynnwys.<br><br>• Cwblhawyd gwaith yn ddiweddar ar systemau argymell cyfrifol sy'n amlinellu'r cynnydd a wnaed yn ddiweddar yn y maes hwn sy'n datblygu'n gyflym, ac mae'n darparu gwybodaeth a fydd yn llywio ein gwaith yn y dyfodol tuag at ddatblygiad algorithmig cyfrifol.<br><br>• Ymgynghorwyd ar ein canllawiau drafft: Bywyd mwy diogel ar-lein i fenywod a merched.  Mae'r canllawiau drafft yn nodi camau ymarferol ac uchelgeisiol y gall darparwyr ar-lein eu cymryd i fynd i'r afael â niwed sy'n effeithio'n anghymesur ar fenywod a merched, gan gynnwys niwed wedi'i greu gan AI fel camddefnyddio delweddau personol ffugiad dwfn. Rydyn ni'n cydnabod bod hwn yn fygythiad cynyddol, gydag un astudiaeth yn canfod bod mwy o gamddefnyddio delweddau personol ffugiad dwfn wedi cael ei bostio ar-lein yn 2023 nag ym mhob un o'r blynyddoedd blaenorol. I fynd i'r afael â hyn, rydyn ni'n argymell arferion da fel cynnal ymarferion tîm coch a phrofi cynnyrch i atal pobl rhag camddefnyddio systemau GenAI i gynhyrchu a rhannu delweddau personol ffugiad dwfn.<br><br>• Cynhaliwyd ymchwil sy'n archwilio'r defnydd o AI wrth nodi cynnwys sy'n gysylltiedig â therfysgaeth mewn testun, delweddau, fideos a sain. Byddwn yn adeiladu ar y gwaith hwn yn ein Labordy Technoleg Diogelwch Ar-lein mewnol yn 2025/2026 drwy archwilio'r defnydd ymarferol o'r dulliau canfod terfysgaeth hyn.<br><br>• Cyhoeddwyd yr ymchwil a'r wybodaeth a gafwyd wrth drafod â rhanddeiliaid ynglŷn â'r defnydd o adnoddau AI a GenAI yn y sector newyddion fel rhan o'r Adolygiad o Gyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus. Roedd hyn yn amlinellu sut gall AI a ddefnyddir gan gyfryngwyr ar-lein arwain at ddefnyddwyr cyfryngau cymdeithasol yn gweld mwy o gynnwys newyddion sy'n bersonol iawn iddyn nhw, a allai yn ei dro waethygu'r problemau sy'n gysylltiedig â phobl ddim yn gweld amrywiaeth eang o safbwyntiau, gan gyfyngu ar ba mor aml maen nhw'n dod i gysylltiad â safbwyntiau amrywiol ac amrywiaeth o bynciau.<br><br>• Cyhoeddwyd ein diweddariad ymchwil ar rôl cyfryngwyr ar-lein yn y sector newyddion. Gan adeiladu ar adroddiad 2022, gwnaethom ymchwilio ymhellach i'r pryderon a godwyd gan gyfryngau cymdeithasol, gan edrych ar y dylanwad sydd ganddyn nhw ar y newyddion mae pobl yn ei weld, effaith safleoedd cynnwys newyddion ar fynediad a defnydd, amrywiaeth y ffynonellau, y pynciau a'r safbwyntiau mae pobl yn dod i gysylltiad â nhw ar |

| Risgiau allweddol | Enghreifftiau o’n gwaith yn ystod 2024/25 i fynd i’r afael â risg |
|---|---|
| | gyfryngau cymdeithasol, a’r systemau cymhellion sydd gan y gwasanaethau hyn.<br>• Cyhoeddwyd papur trafod ymwybyddiaeth o'r cyfryngau a oedd yn edrych ar ddefnyddio GenAI a’r goblygiadau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau, gan gynnwys ar feysydd fel newyddion, cynhwysiant digidol a phersonoli. |
| **Diogelwch a chadernid** | • Daliwyd ati i olrhain datblygiadau o ran sut gellid defnyddio GenAI i ddatblygu adnoddau maleisus sy’n bygwth diogelwch rhwydweithiau.<br>• Parhawyd i drafod â gwasanaethau rheoledig sy’n dod o dan y TSA i ddeall sut maen nhw’n integreiddio GenAI yn eu systemau, gan gynnwys sut maen nhw’n ystyried cadernid a diogelwch yn eu systemau eu hunain ac ar draws cadwyni cyflenwi gwerthwyr.<br>• Trafodwyd â chyrff safonau (ee Sefydliad Safonau Telegyfathrebiadau Ewrop, y Sefydliad Rhyngwladol ar gyfer Safonau, a’r Undeb Telathrebu Rhyngwladol). Mae’r sefydliadau hyn wrthi’n datblygu safonau ac yn gweithio ar faterion fel cadernid a diogelwch modelau iaith sy’n sail i adnoddau GenAI a sut y gall AI gefnogi diogelwch rhwydweithiau. |

# 5. Ein gallu i reoleiddio yng nghyd-destun AI

5.1 **Mae Ofcom wedi bod yn gorff arbenigol erioed.** Rydyn ni wedi dibynnu ers tro ar wybodaeth dechnegol ac arbenigedd i arfer ein swyddogaethau a chyflawni ein dyletswyddau'n effeithiol. Mae hyn yn ein galluogi i asesu'r cyfleoedd a'r risgiau sy'n deillio o fathau newydd o dechnoleg. Mae gennym dros 100 o arbenigwyr technoleg yn ein timau data a thechnoleg (gan gynnwys tua 60 o arbenigwyr AI), gan gynnwys rhai sydd â phrofiad uniongyrchol o ddatblygu adnoddau AI. Mae enghreifftiau o'r adnoddau hyn yn cynnwys golwg cyfrifiadurol ar gyfer technolegau amcangyfrif oedran; ap cymedroli llais sy'n defnyddio AI i wirio a yw iaith yn niweidiol i bobl â nodweddion gwarchodedig; a rhaglen i greu dyfrnodau anweledig ar ddelweddau. Mae'r arbenigwyr hyn yn cefnogi ein dealltwriaeth o effeithiau a risgiau AI ar ein sectorau a'n rhanddeiliaid. Rydyn ni'n asesu ac yn adolygu ein galluoedd yn barhaus i sicrhau bod gennym yr arbenigedd sydd ei angen arnom.

5.2 **Rydyn ni wedi datblygu arbenigedd AI a data cryf ar draws Ofcom.** Byddwn yn datblygu ein rhaglen llythrennedd a diwylliant data i wreiddio gwybodaeth a dealltwriaeth o AI ar draws ein sefydliad. Byddwn yn cryfhau ein strategaeth, ein polisïau a'n canllawiau data presennol i greu'r sylfaen ar gyfer ein defnydd cynyddol o adnoddau AI. Bydd ein gwaith eleni yn cynnwys canolbwyntio ar AI bob dydd mewn adnoddau TGCh rydyn ni'n eu defnyddio'n barod. Byddwn hefyd yn ehangu ein gwaith yn y maes hwn i raglenni arbenigol y mae angen eu datblygu'n bwrpasol, o bosib ar y cyd â rheoleiddwyr eraill lle mae'r adnoddau'n ceisio mynd i'r afael â phroblemau cyffredin.

5.3 **Mae treialon pwysig ar y gweill.** Rydyn ni'n cynnal profion mewnol ar fwy na dwsin o 'brofion o gysyniad', a allai gynyddu cynhyrchiant Ofcom a chreu arbedion effeithlonrwydd. Mae'r treialon hyn yn cynnwys defnyddio rhaglenni GenAI trydydd parti o fewn y systemau presennol (hy AI bob dydd) yn ogystal â chreu rhaglenni sy'n seiliedig ar GenAI yn fewnol. Mae'r treialon yn cwmpasu amrywiaeth eang o ddefnyddiau; gan gynnwys cefnogaeth i'n swyddogaethau corfforaethol mewnol (ee cyllid, cyfathrebu a phobl); cefnogi'r gwaith o ddadansoddi setiau data mawr yn ein hymgyngoriadau a'n gwaith ar gwynion; a chefnogi ein gwaith cynllunio sbectrwm. Dyma rai enghreifftiau:

a) Rydym wedi symleiddio trawsgrifio cynnwys darlledu i gynorthwyo gydag asesu cwynion a dderbynnir, trwy ddefnyddio trawsgrifydd deallusrwydd artiffisial. Mae hyn wedi cynhyrchu trawsgrifiadau cywir yn gyflymach, gan alluogi cydweithwyr i ganolbwyntio ar ddadansoddi'r cynnwys.

b) Cyn i adnoddau parod fod ar gael, roeddem wedi datblygu adnodd crynhoi testun pwrpasol i ddod o hyd i batrymau mewn paragraffau a brawddegau yn yr ymatebion i'n hymgyngoriadau, ac i sicrhau bod y themâu yn cyd-fynd â'r rheini a nodwyd mewn dogfennau mewnol ehangach. Erbyn hyn rydyn ni wedi ehangu'r gwaith hwn i archwilio cynnyrch parod yn y farchnad.

c) Rydyn ni wedi defnyddio AI i wella'r gwaith o gynllunio sbectrwm, gyda photensial aruthrol i wella effeithlonrwydd sbectrwm a'r defnydd o rannu trwyddedau – yn enwedig mewn ardaloedd adeiledig sy'n defnyddio amleddau uchel.

d) Rydyn ni'n defnyddio adnoddau AI yn ystod ein proses datblygu meddalwedd, o brofi i gynhyrchu, dogfennu ac, mewn rhai achosion, ysgrifennu cod.

5.4 **Rydyn ni'n mynd gam ymhellach.** Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn cyflymu'r defnydd o AI ar draws ein meysydd polisi. Rydyn ni hefyd yn ymrwymo i ddefnyddio technoleg, gan gynnwys AI, mewn ffordd sy'n lleihau'r baich rheoleiddio ar ein rhanddeiliaid yn unol â'n dull rheoleiddio cyffredinol. Fel rheoleiddiwr, mae diogelwch wrth galon ein gwaith mewnol ac allanol ar AI, felly byddwn yn sicrhau ein bod yn ei ddefnyddio'n ofalus ac yn briodol. Mae hyn yn golygu ein bod yn debygol o barhau i dreialu AI yn Ofcom nes ein bod yn hyderus bod ein hadnoddau'n ddiogel i'w defnyddio'n ehangach.

5.5 **Rydyn ni wedi parhau i fuddsoddi yn ein sgiliau sganio'r gorwel a masnachol** er mwyn helpu i gynnal ein dealltwriaeth o sut mae busnesau'n gweithredu a sut gall diwydiant wneud arian mewn amgylchedd sy'n newid yn gyflym. Mae Ofcom yn parhau i ddenu cydweithwyr sydd â phrofiad mewn busnes a diwydiant ar draws ein sectorau, ac rydyn ni'n parhau i gynnal deialog agored â diwydiant. Mae hyn yn golygu ein bod yn gallu rhoi ystyriaeth wybodus i gostau a manteision penodol y mesurau rheoleiddio unigol, yn ogystal â'n dull rheoleiddio cyffredinol, i sicrhau bod ein gwaith rheoleiddio'n gymesur ac yn caniatáu ar gyfer twf yn ein diwydiannau.

# 6. Gweithio gydag eraill ynghylch AI

5.1 **Mae Ofcom yn trafod yn rheolaidd â sefydliadau domestig a rhyngwladol eraill i gydweithio ar bynciau sy'n ymwneud ag AI, a bydd yn parhau i wneud hynny.** Er enghraifft:

- **Mae Ofcom yn trafod yn rheolaidd â Llywodraeth y DU ynghylch AI.** Yn ddiweddar, cyhoeddodd y Llywodraeth ei Chynllun Gweithredu Cyfleoedd AI a oedd yn nodi ei huchelgeisiau i gefnogi arloesedd AI a'i ddefnydd yn y DU. Fel y nodir yn y ddogfen hon, mae gennym rôl i'w chwarae yn cefnogi arloesedd AI yn ein sectorau a byddwn yn parhau i drafod â'r Llywodraeth ynghylch ei huchelgeisiau o ran AI wrth iddi fwrw ymlaen â nhw. Mae'r Llywodraeth hefyd wedi ymrwymo i ymgynghori ar ddeddfwriaeth AI ac mae wedi sefydlu'r Sefydliad Diogelwch AI (AISI) sy'n cynnal ymchwil i helpu i lywio trefniadau llywodraethu AI. Mae Ofcom yn gweithio gydag AISI i gefnogi cyfnewid gwybodaeth ar ddiddordebau cyffredin gan gynnwys diogelwch AI. Byddwn hefyd yn parhau i fonitro'r risgiau a achosir gan AI ac yn adolygu bylchau posib yn ein pwerau rheoleiddio presennol ac yn cydlynu â'r Llywodraeth ar y materion hyn.
- **Mae Ofcom yn aelod o'r Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol (DRCF).** Drwy'r Fforwm, rydyn ni wedi bod yn cydweithio â rheoleiddwyr eraill yn y DU ar brosesu algorithmau, archwiliadau a llywodraethu AI, yn ogystal â datblygu polisi AI Llywodraeth y DU. Yn ystod 2024/25, treialodd y Fforwm Hyb Deallusrwydd Artiffisial a Digidol a oedd yn darparu cyngor anffurfiol am ddim i arloeswyr sy'n dymuno defnyddio AI. Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid yn y Fforwm i lansio rhagor o gymorth i arloeswyr. Mae'r Fforwm wedi nodi rhagor o wybodaeth am ein cynlluniau ar gyfer cydweithredu yn ei gynllun gwaith ar gyfer 2025/26. Rydyn ni'n rhagweld y byddwn yn parhau i weithio gyda'n gilydd ar reoleiddio AI dros amser wrth i'r dechnoleg a'r dirwedd polisi barhau i esblygu. Er enghraifft, rydyn ni'n parhau i ddatblygu ein dealltwriaeth ar y cyd o sut gallai trefniadau rheoleiddio aelodau'r Fforwm fod yn berthnasol i AI, yn ogystal â gweithio gyda'n gilydd i ganfod ac i ddatrys unrhyw wrthdaro. Eleni, bydd y Fforwm hefyd yn archwilio ecosystem bosib AI asiantol yn y dyfodol i ddeall sut gallai ddatblygu a'r goblygiadau rheoleiddiol i reoleiddwyr a diwydiant, er mwyn cynhyrchu allbwn allanol yn 2026. Ochr yn ochr ag aelodau eraill y Fforwm, mae Ofcom yn rhan o Weithgor Rheoleiddwyr AI yn yr Alban sy'n cwrdd yn rheolaidd â chyrff cyhoeddus eraill yn yr Alban i drafod sut mae AI yn effeithio ar eu sectorau.
- **Mae Ofcom yn un o sylfaenwyr a Chadeirydd presennol y Rhwydwaith Rheoleiddwyr Diogelwch Ar-lein Byd-eang (GOSRN)**, rhwydwaith sy'n tyfu o reoleiddwyr sy'n gyfrifol am ddiogelwch ar-lein sydd, hyd yma, yn cynnwys rheoleiddwyr o Awstralia, Ffiji, Iwerddon, De Korea, De Affrica, Slofacia, yr Iseldiroedd a Ffrainc**.** Drwy GOSRN, rydyn ni'n rhannu ein profiadau a'r hyn rydyn ni wedi'i ddysgu am faterion sy'n ymwneud ag AI er mwyn deall yn well beth yw risgiau a chyfleoedd technolegau AI i'n gwaith fel rheoleiddwyr diogelwch ar-lein. I ddechrau, bydd y ffocws ar atebion technegol i ddiogelu plant ar-lein a sut i reoli heriau diogelwch GenAI.

- **Mae Ofcom hefyd yn aelod o Lwyfan Ewropeaidd yr Awdurdodau Rheoleiddio (EPRA),** sef rhwydwaith o fwy na 50 o reoleiddwyr clyweledol Ewropeaidd. Drwy gyfarfod bwrdd crwn EPRA ar AI, rydyn ni'n cyfnewid profiadau gydag aelodau EPRA ar ddefnyddio adnoddau AI wrth reoleiddio darlledu, ac ar yr effaith mae technolegau AI yn ei chael ar y sector darlledu.
- **Rydyn ni'n cymryd rhan ragweithiol mewn dadleuon polisi byd-eang ar AI, ar draws y sectorau sy'n cael eu rheoleiddio gennym.** Mae hyn yn cynnwys trafod yn uniongyrchol â chymdeithas sifil, academyddion a llunwyr polisïau ledled y byd i ddeall defnydd ac effaith AI. O ganlyniad, rydyn ni wedi cyfrannu at ddatblygu canllawiau Cyngor Ewrop, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2023, ar ddefnyddio systemau AI yn gyfrifol ym maes newyddiaduraeth. Roedden ni'n dal sedd fel sylwedydd ar Banel Asesu Ymchwil AI yr Arsyllfa Gwybodaeth a Democratiaeth a gyhoeddodd ei argymhellion polisi ym mis Ionawr 2025. Rydyn ni'n cymryd rhan ym menter Cyfryngau a Thechnoleg Mawr y Sefydliad dros Ddiogelwch a Chydweithrediad yn Ewrop er mwyn datblygu canllawiau polisi i wella argaeledd a hygyrchedd at newyddiaduraeth o safon a gwybodaeth er budd y cyhoedd ar-lein.
- **Mae Ofcom yn cymryd rhan mewn trafodaethau ynghylch safonau AI mewn sefydliadau datblygu safonau** gan gynnwys yr Undeb Telathrebu Rhyngwladol (ITU), lle mae gan Ofcom rôl arweiniol yn cynrychioli'r DU. Mae Ofcom hefyd yn cymryd rhan ym Mhwyllgor Technegol Sefydliad Safonau Telegyfathrebiadau Ewrop (ETSI): CYBER, lle mae'r agweddau telegyfathrebiadau ar ddiogelwch AI yn cael eu ffurfioli. ETSI yw Sefydliad Datblygu Safonau o ddewis y Llywodraeth ar gyfer y gwaith hwn, a bydd tîm Diogelwch AI yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg hefyd yn rhyngweithio â'r Sefydliad Rhyngwladol ar gyfer Safonau. Rydyn ni'n cael gweld briffiau Diogelwch AI yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg pan fyddan nhw'n berthnasol i delegyfathrebiadau.
- **Rydyn ni'n parhau i gynyddu ein dealltwriaeth o AI drwy weithio mewn partneriaeth ag academyddion a sefydliadau academaidd,** fel y Ganolfan Ymchwil Genedlaethol ar Breifatrwydd, Lleihau Niwed a Dylanwad Gwrthwynebol Ar-lein (REPHRAIN) i rannu gwybodaeth. Mae hyn yn cynnwys rhannu risgiau a heriau AI a bennwyd gan ein harbenigwyr mewnol drwy gynnal neu gomisiynu eu hymchwil dechnegol eu hunain. Rydyn ni hefyd wedi cysylltu â Chanolfannau UKRI ar gyfer Hyfforddiant Doethurol mewn AI a Sefydliadau Dyfodol Digidol, gan gynnwys mynd i ddigwyddiadau, gweithdai a hacathons. Rydyn ni'n croesawu academyddion yn Ofcom drwy gymrodoriaethau, er enghraifft, ym mis Chwefror 2025 gwnaethom groesawu academydd o sefydliad addysg uwch yn y DU ar gynllun Cymrodoriaeth Arloesedd yr Academi Brydeinig. Maen nhw'n gweithio mewn partneriaeth ag Ofcom am 12 mis i ddatblygu canlyniadau er mwyn gwella dealltwriaeth Ofcom o AI ac ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ac effaith AI ar ymddiriedaeth mewn newyddion, ac i gynnig atebion i ddylanwadu ar bolisi ac ymarfer. Rydyn ni hefyd wedi trefnu dau brosiect PhD ar y cyd â Phrifysgol Manceinion a Phrifysgol Sheffield, ac rydyn ni'n gwadd academyddion i mewn yn rheolaidd i roi cyflwyniadau ymchwil i gydweithwyr ar draws y sefydliad.

# A1. Gwaith AI sydd ar y gweill ar gyfer 2025/26

A1.1 Bydd gwaith AI sydd ar y gweill gan Ofcom yn sicrhau ein bod yn parhau i nodi ac ymateb i risgiau sy’n gysylltiedig ag AI ar draws ein cylch gwaith. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys parhau i weithredu a datblygu llawer o’r gweithgareddau allweddol sydd wedi’u nodi yn y ddogfen hon, yn ogystal â dechrau gwaith newydd ar draws ein gwahanol feysydd polisi.

A1.2 Mae Cynllun Gwaith 2025/26 Ofcom yn nodi’r gwaith rydyn ni’n bwriadu ei wneud yn ystod y 12 mis nesaf. Gan fod AI yn berthnasol ar draws ein cylch gwaith, bydd nifer o'r prosiectau hyn yn cynnwys gwaith i ystyried effeithiau AI, hyd yn oed os na chyfeirir at hynny’n benodol. Mae’r Atodiad hwn yn rhoi enghreifftiau o’r gwaith y byddwn yn ei wneud yng nghyswllt AI ym mhob un o’n meysydd polisi, yn ogystal â gwaith sy’n torri ar draws ein meysydd polisi.

<table>
<tr><th>Maes polisi</th><th>Y gwaith y byddwn yn ei wneud yn 2025/26</th></tr>
<tr><td>Traws-sectorau</td><td><ul>
<li>Rydyn ni’n datblygu adnoddau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ychwanegol i gefnogi rhanddeiliaid yn y maes, gan gynnwys:
<ul>
<li>Crynodeb o faterion sy’n edrych ar yr heriau a’r cyfleoedd o ran ymwybyddiaeth o'r cyfryngau y mae AI yn eu creu.</li>
<li>Y sgiliau sylfaenol sydd eu hangen i bawb fod ag ymwybyddiaeth dda o’r cyfryngau mewn ymateb i ofod gwybodaeth sy’n cael ei gyfryngu fwyfwy gan AI.</li>
</ul></li>
<li>Rydyn ni’n gweithio gyda’r DRCF i werthuso Hyb Deallusrwydd Artiffisial a Digidol y Fforwm ac i ddatblygu model olynol.</li>
<li>Byddwn yn parhau â’n gwaith sganio’r gorwel i nodi datblygiadau AI sy’n dod i’r amlwg a rhai tymor hwy a allai gael goblygiadau i ddinasyddion a defnyddwyr, gwasanaethau sy’n cael eu rheoleiddio, a sectorau sy’n cael eu rheoleiddio.</li>
<li>Byddwn yn parhau i gyhoeddi’r holl ddata ymchwil heb fod yn gyfrinachol a gasglwn, gyda setiau data mawr ar gael mewn fformatau y gall peiriant eu darllen.</li>
<li>Byddwn yn parhau i fynd ati’n rhagweithiol i fonitro a chymryd diddordeb mewn datblygiadau AI yn rhyngwladol, fel Deddf Deallusrwydd Artiffisial yr UE, er mwyn deall eu heffaith ar sectorau sy’n cael eu rheoleiddio a rhanddeiliaid Ofcom.</li>
<li>Rydyn ni’n cymryd rhan mewn fforymau rheoleiddio domestig a rhyngwladol, gan gynnwys y DRCF, GOSRN ac EPRA ar faterion AI sy’n croesi cylchoedd gwaith rheoleiddio.</li>
<li>Byddwn yn parhau i drafod ynghylch materion AI mewn cyrff safoni, gan gynnwys cynrychiolaeth barhaus Ofcom o’r DU yn yr ITU.</li>
<li>Byddwn yn parhau i drafod â’r Llywodraeth mewn perthynas â’i chynlluniau ar gyfer cyfleoedd AI a’i hymgynghoriad arfaethedig yn y dyfodol ar ddeddfwriaeth AI.</li>
<li>Rydyn ni’n buddsoddi mewn datblygu ein galluoedd AI drwy uwchsgilio ein talent ac archwilio ymhellach sut gallwn ddefnyddio AI ar draws ein gweithrediadau.</li>
</ul></td></tr>
</table>

| Maes polisi | Y gwaith y byddwn yn ei wneud yn 2025/26 |
|---|---|
| **Diogelwch ar-lein** | • Bydd ein Labordy Technoleg Diogelwch Ar-lein mewnol yn parhau i gefnogi ymchwil ymarferol i dechnolegau diogelwch, gan alluogi cydweithwyr i ymchwilio a dangos hyd a lled a grym technolegau diogelwch ar-lein.<br>• Rydyn ni'n gweithio gyda Sefydliad Alan Turing i adeiladu tacsonomeg ar gyfer technoleg diogelwch, gan ddarparu eglurder ar y safonau y mae'n rhaid i ddiwydiant eu cael er mwyn galluogi arloesedd.<br>• Byddwn yn parhau i weithio gyda llwyfannau ar-lein mawr i ddeall sut maen nhw'n defnyddio adnoddau AI, a sut gallan nhw barhau i arloesi'n ddiogel a defnyddio AI i wella diogelwch ar eu gwasanaethau.<br>• Byddwn yn cyhoeddi ein Canllawiau terfynol ar Fywyd Mwy Diogel Ar-lein i Fenywod a Merched.<br>• Byddwn yn parhau i weithio gyda'r sector newydd o wasanaethau sicrwydd AI i dynnu sylw at gyfleoedd ar gyfer technegau archwilio a sicrwydd sy'n canolbwyntio ar ddiogelwch ar-lein.<br>• Byddwn yn monitro datblygiad technolegau, cynnyrch a gwasanaethau AI newydd, ac yn gwneud yn siŵr bod gwasanaethau'n ymwybodol o'u rhwymedigaethau o dan y Ddeddf Diogelwch Ar-lein.<br>• Byddwn yn cyhoeddi ymchwil sy'n edrych ar rinweddau ymyriadau a allai helpu i ymateb i ffugiadau dwfn niweidiol, gan gynnwys mabwysiadu dyfrnodau, tarddiad cynnwys a labeli AI. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys arbrofion manwl ar gadernid offer dyfrnodi dethol. Byddwn hefyd yn ymgymryd ag ymchwil sy'n archwilio sut mae adnoddau GenAI yn newid y ffordd mae pobl yn chwilio am wybodaeth ar-lein.<br>• Byddwn yn edrych ar yr angen am fesurau yn ein Codau Ymarfer sydd ar y gweill i fynd i'r afael â niwed sy'n seiliedig ar AI. Er enghraifft, byddwn yn cyhoeddi cynigion maes o law ar ddefnyddio mesurau cyfateb hash i atal rhannu delweddau personol heb ganiatâd, gan gynnwys delweddau wedi'u creu gan AI. Byddwn hefyd yn edrych ar yr angen am fesurau penodol i AI, megis sut gallai ymyriadau technegol helpu gwasanaethau ar-lein i ganfod hysbysebion twyllodrus ffugiad dwfn ar eu llwyfannau. Byddwn yn gweithio gyda'n cymheiriaid yn DRCF i gyflawni ein rhaglen waith AI. Bydd hyn yn cynnwys archwilio goblygiadau technolegau newydd a datblygol – fel systemau asiantol – a'r hyn y gallai hynny ei olygu i'n diwydiannau a'n cylchoedd gwaith rheoleiddio. |

| | |
|---|---|
| **Telegyfathrebiadau** | • Mae Ofcom a Digital Catapult yn cydweithio yn Labordai SONIC ar astudiaeth dechnegol i ddeall y defnydd o AI mewn rhwydweithiau symudol – bydd y gwaith hwn yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu canllawiau ar gadernid rhwydweithiau ar gyfer gweithredwyr symudol.<br>• Mae Ofcom yn cael ei gynrychioli ar fwrdd goruchwylio Labordy Telegyfathrebiadau'r DU sy'n darparu rhywle i weithredwyr a gwerthwyr brofi diogelwch, cadernid, a'r gallu i ryngweithredu ar rwydweithiau profi sydd bron â bod yn gynrychioladol.<br>• Mae Ofcom yn cymryd rhan ym Mhwyllgor Technegol Sefydliad Safonau Telegyfathrebiadau Ewrop (ETSI): CYBER, lle mae'r agweddau telegyfathrebiadau ar ddiogelwch AI yn cael eu ffurfioli. ETSI yw Sefydliad Datblygu Safonau o ddewis y Llywodraeth ar gyfer y gwaith hwn, a bydd tîm Diogelwch AI yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg hefyd yn rhyngweithio â'r Sefydliad Rhyngwladol ar gyfer Safonau.<br>• Byddwn yn parhau i fonitro a thrafod ynghylch datblygiad safonau AI gyda chyrff safonau yng ngwledydd y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol.<br>• Byddwn yn parhau i weithio gyda diwydiant a'r gadwyn gyflenwi gwerthwyr er mwyn monitro risgiau seiberddiogelwch sy'n ymwneud ag AI, yn ogystal â risgiau twyll a sgamiau, gan dynnu sylw'r endidau priodol (cwmnïau a reoleiddir, y llywodraeth ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith) at unrhyw bryderon ynghylch effeithiau negyddol AI ar ddiogelwch telegyfathrebiadau.<br>• Byddwn yn defnyddio ein pwerau rheoleiddio i ymchwilio i beryglon diogelwch o fewn cwmpas y Rheoliadau Rhwydwaith a Systemau Gwybodaeth a'r TSA ac yn nodi a yw'r rhain wedi cael eu hwyluso gan risgiau AI.<br>• Byddwn yn parhau i weithio gyda gweithredwyr telegyfathrebiadau i ddeall sut mae technolegau AI yn cael eu defnyddio yn eu rhwydweithiau a'u cynlluniau datblygu ar gyfer y dyfodol, a byddwn yn eu cefnogi i ddatblygu a defnyddio unrhyw systemau a phrosesau telegyfathrebiadau sy'n seiliedig ar AI yn y dyfodol.<br>• Byddwn yn parhau i fonitro datblygiadau yn y farchnad AI er mwyn deall sut gallai'r cynnydd yn y nifer sy'n mabwysiadu ac yn defnyddio AI effeithio ar farchnadoedd digidol sy'n ymwneud â thelegyfathrebiadau (ee cynnydd yn lefelau cyflwyno cyfrifiadura Ymyl). Bydd y gwaith monitro hwn hefyd yn ystyried yr effeithiau ar ddefnyddwyr, ac yn gwerthuso newidiadau ar strwythur y marchnadoedd digidol neu delegyfathrebiadau a'r effaith ddilynol ar gystadleuaeth.<br>• Byddwn yn parhau i fonitro sut mae datblygwyr systemau AI a'r rheini sy'n eu defnyddio ym maes telegyfathrebiadau yn blaenoriaethu tryloywder a'r gallu i egluro a dehongli er mwyn meithrin ymddiriedaeth ac atebolrwydd. |

| Maes polisi | Y gwaith y byddwn yn ei wneud yn 2025/26 |
|---|---|
| **Darlledu a'r Cyfryngau** | • Byddwn yn cyhoeddi canllawiau pellach i ddarlledwyr yn ôl yr angen, gan sicrhau eu bod yn parhau i ddeall eu cyfrifoldebau a'u hatebolrwydd o ran AI.<br>• Byddwn yn parhau i ymchwilio i oblygiadau dylanwad cyfryngau cymdeithasol dros blwraliaeth a chynaliadwyedd y cyfryngau, a pha mor hawdd yw dod o hyd i gynnwys newyddion a chynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus.<br>• Rydyn ni'n ystyried pa alluogwyr polisi y gallai fod eu hangen i gefnogi sector y cyfryngau o ran manteisio ar y cyfleoedd y gallai AI eu cynnig, a pha atebion polisi a allai fod yn angenrheidiol i fynd i'r afael â'r risgiau a nodwyd ar gyfer cynulleidfaoedd, darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, darparwyr newyddion a'r sector cyfryngau yn gyffredinol.<br>• Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gyfleoedd a risgiau fel rhan o ail gam ein Hadolygiad o Gyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus. |
| **Sbectrwm** | • Byddwn yn parhau â'n gwaith ymchwil ar ddefnyddio dysgu peirianyddol ar gyfer modelau ymledu tonnau radio mwy effeithlon a dibynadwy sy'n gallu ymdrin â phob agwedd ar fecanweithiau sbectrwm cymhleth. |
| **Post** | • Byddwn yn parhau i fonitro sut gallai'r sector post fanteisio ymhellach ar gyfleoedd AI. |